# Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2019-20

*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English*

Mae dyletswydd statudol ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i gydymffurfio â rheoliadau Safonau'r Gymraeg sy'n sefydlu sut y dylai sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd. Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg trwy is-ddeddfwriaeth (Safonau Rheoliadau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015). Rhestrir y safonau a gyflwynwyd i Gyngor Caerdydd yn 'Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Dinas Caerdydd - Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011'.

Mae copi o'r safonau, y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn, ar gael o www.caerdydd.gov.uk/caerdydd-ddwyieithog

## 1. Cyflwyniad

Prif nod y ddeddfwriaeth (safonau) yw sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, gyda'r pwyslais ar gynnig a chofnodi dewis iaith yn hytrach na bod y cyfrifoldeb ar y defnyddiwr gwasanaeth neu'r gweithiwr unigol i wneud cais am wybodaeth neu wasanaethau yn y Gymraeg. Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gyhoeddi adroddiad blynyddol bob blwyddyn sy'n nodi'r wybodaeth ganlynol

| **Cwynion** |
|---|
| Nifer y cwynion a gafwyd yn ystod y flwyddyn ariannol honno sy'n ymwneud â chydymffurfio â safonau'r Gymraeg. |
| **Sgiliau Cymraeg Cyflogeion** |
| Nifer y cyflogeion sydd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol dan sylw. |
| **Hyfforddiant cyfrwng Cymraeg** |
| • Nifer yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn.<br>• Os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn honno, canran cyfanswm y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg |
| **Swyddi a hysbysebwyd** |
| Nifer y swyddi newydd ac a oedd yn wag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn ac a gafodd eu categoreiddio fel swyddi lle —<br>• mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol,<br>• bydd angen dysgu sgiliau Cymraeg yn dilyn penodiad i'r swydd,<br>• mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol<br>• nid oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol. |

Mae pob awdurdod lleol wedi derbyn hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg sy'n rhestru'r safonau a'r dyddiad cydymffurfio ar gyfer pob un o'r safonau.

Cytunir ar Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg gan y Cyngor llawn a'i gymeradwyo, cyn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor yn unol â gofynion statudol y safonau.

Caiff yr adroddiad ei ystyried yng nghyfarfod y Cabinet ar 17 Medi 2020 ac yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 24 Medi 2020. Ar ôl hynny, bydd yr adroddiad ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Cyngor www.caerdydd.gov.uk/caerdydd-ddwyieithog

## 2. Llwyddiannau

- Aeth **37,000** o bobl i Tafwyl ym mis Gorffennaf 2019 gydag effaith economaidd amcangyfrifedig o **£1,832,485** ar Gaerdydd. Cefnogwyd Tafwyl gan Gyngor Caerdydd.

- Cyfieithodd Caerdydd Ddwyieithog **12,632,732 o eiriau** (dychwelwyd **98.6%** o bob cais yn ôl i'r cleient erbyn y terfyn amser a gytunwyd). Cyfieithodd y tîm fwy o eiriau nag unrhyw flwyddyn flaenorol; cynnydd o **10%** yn nifer y geiriau a gyfieithwyd o'i gymharu â 2018/19.

- Cafodd Polisi Enwi Strydoedd newydd Cyngor Caerdydd, sy'n sicrhau cydraddoldeb rhwng enwau strydoedd Cymraeg a Saesneg yn y ddinas, ei gymeradwyo ar **24 Hydref 2019**

- Cafodd canlyniadau Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg 2018-19 dderbyniad cadarnhaol, gweler **Adran 12** am ragor o fanylion.

- Cynhaliwyd y ffair recriwtio Gymraeg gyntaf erioed yng Nghaerdydd, sef Gyrfa Gymraeg, ar 2 Mawrth yn Neuadd y Ddinas gyda dros 200 o ddisgyblion o dair ysgol uwchradd Gymraeg y ddinas yn bresennol.

- Cafodd Dydd Miwsig Cymru (07/02/2020) a Diwrnod Shwmae (15/10/2019) eu hyrwyddo'n llwyddiannus ar draws y Cyngor.

- Mae nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg wedi cynyddu gan **48.4%** ers 2018-19.

- Cwblhaodd **955** o staff hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg yn 2018-19, ac mae cyfanswm o **914** aelod o staff wedi cwblhau'r modiwl hyfforddi ar-lein corfforaethol ar Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg hyd yma (31/03/2020).

Hysbysebodd y Cyngor **35** o swyddi Cymraeg hanfodol, a **93** o swyddi ychwanegol lle'r oedd y Gymraeg yn ofyniad dymunol.

## 3. Polisi Enwi Strydoedd Cyngor Caerdydd

Cafodd Polisi Enwi Strydoedd newydd Cyngor Caerdydd, sy'n sicrhau cydraddoldeb rhwng enwau strydoedd Cymraeg a Saesneg yn y ddinas, ei gymeradwyo ar **24 Hydref 2019.**

Yn dilyn cymeradwyaeth, mae gwaith wedi dechrau i ddilysu enwau strydoedd dwyieithog cyfredol, paratoi a safoni rhestr o enwau strydoedd dwyieithog ychwanegol, a chreu enwau strydoedd dwyieithog newydd.

Mae'r ddwy ran gyntaf uchod ar fin cael eu cwblhau a byddant yn cael eu hanfon i'w cymeradwyo gan y Cyngor cyn symud ymlaen i'r cam terfynol. Ar ôl ei chymeradwyo, bydd y wybodaeth yn cael ei hychwanegu at restr swyddogol y Cyngor.

Fel rhan o'r broses safoni, mae mannau gwyrdd a pharciau yn y ddinas wedi derbyn enwau dwyieithog yn ogystal ag ardaloedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig ac ardaloedd cadwraeth.

Bydd dinasyddion Caerdydd yn cael mynediad at adnodd o fewn map ishare y Cyngor lle byddant yn gallu clywed ynganiad enw'r stryd a gweld crynodeb cryno o hanes yr enw.

Gellir gweld Polisi Enwau Strydoedd Cyngor Caerdydd yma neu trwy fewnbynnu'r cyfeiriad gwe isod:

https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Parcio-Ffyrdd-a-Theithio/transport-policies-plans/Enwi-Strydoedd/Pages/default.aspx

## 4. Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020

**Datganiad Cenhadaeth Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP)**
Bydd pob plentyn yn ein dinas yn hyderus yn eu Cymraeg erbyn 2050, er mwyn cyfrannu at greu Caerdydd wirioneddol ddwyieithog lle y caiff y Gymraeg ei hamddiffyn a'i meithrin i genedlaethau'r dyfodol ei defnyddio a'i mwynhau.

**Gweledigaeth WESP**
Bydd system addysg Caerdydd yn gweithredu fel sbardun allweddol i sicrhau y gall plant ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, a chreu siaradwyr newydd, i gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Er bod nifer a chanran y disgyblion a oedd wedi'u cofrestru ar ddechrau'r dosbarth derbyn mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi tyfu'n gyson rhwng 2004/05 a 2012/13, roedd y niferoedd wedi amrywio yn ystod y cyfnod o 2012/13 i 2016/17 ac maent wedi gostwng ers hynny. Roedd y ganran o ddisgyblion oedd wedi'u cofrestru yn 2017/18 yn cynrychioli canran uchaf Caerdydd o ddisgyblion mewn dosbarthiadau Derbyn Cymraeg. Mae nifer y disgyblion sydd wedi'u cofrestru yn 2019/20 wedi gostwng ychydig tra bod y ganran mewn addysg cyfrwng Cymraeg wedi aros yn

gyson (16.6% yn 2019/20 o'i gymharu â 16.9% yn 2018/19). Gan fod perthynas uniongyrchol rhwng nifer y disgyblion a gofrestrwyd mewn dosbarthiadau Cymraeg â phoblogaeth disgyblion, sy’n gallu esgyn neu ddisgyn, mae cynnydd yn y ganran yn fesur mwy priodol o lwyddiant hybu addysg Gymraeg.

Gweler tabl 1 isod:

| Blwyddyn Ysgol | Nifer derbyn gwirioneddol (C) | Nifer derbyn gwirioneddol (C, S a Ffydd) | % Nifer derbyn gwirioneddol (C) | Blwyddyn Ysgol | Nifer derbyn gwirioneddol (C) | Nifer derbyn gwirioneddol (C, S a Ffydd) | % Nifer derbyn gwirioneddol (C) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2004/05 | 421 | 3,333 | 12.6% | 2012/13 | 686 | 4,221 | 16.3% |
| 2005/06 | 455 | 3,402 | 13.4% | 2013/14 | 678 | 4,256 | 15.9% |
| 2006/07 | 465 | 3,257 | 14.3% | 2014/15 | 706 | 4,246 | 16.6% |
| 2007/08 | 519 | 3,463 | 15.0% | 2015/16 | 690 | 4,335 | 15.9% |
| 2008/09 | 555 | 3,474 | 16.0% | 2016/17 | 744 | 4,340 | 17.1% |
| 2009/10 | 572 | 3,683 | 15.5% | 2017/18 | 707 | 4,098 | 17.3% |
| 2010/11 | 594 | 3,859 | 15.4% | 2018/19 | 702 | 4,125 | 16.9% |
| 2011/12 | 651 | 4,019 | 16.2% | 2019/20 | 683 | 4,119 | 16.6% |

***Tabl 1: Niferoedd a chanran y disgyblion a dderbyniwyd i addysg cyfrwng Cymraeg o 2004/05 i 2017/18***

Ers 15 Mehefin 2020, mae 768 o ddisgyblion wedi cael lleoedd derbyn mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ar gyfer mis Medi 2020. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r nifer derbyn diweddar ac yn cyfateb i 18.7% o'r cyfanswm a ragwelwyd.

Rhagwelir gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n mynd i addysg gynradd o ganlyniad i ostyngiad yn y gyfradd genedigaethau rhwng Medi 2021 a 2023, a fyddai'n caniatáu i gyfran uwch o'r boblogaeth gofrestru mewn addysg gynradd cyfrwng Cymraeg. Gallai cyfanswm nifer y lleoedd Cymraeg sydd ar gael adeg mynediad i addysg gynradd ledled y ddinas gynnig lle felly i tua 22% o’r boblogaeth ddisgyblion a ragwelir yn 2022 a 2023. Mae digon o gapasiti yn y sector cynradd Cymraeg i ganiatáu cynnydd sylweddol.

Mae’n bwysig cydnabod bod adnoddau’n brin, felly mae yna ganolbwyntio gwirioneddol ar sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau, ac o ddatblygu partneriaethau cryf er mwyn galluogi sicrhau deilliannau sy’n gwella a hynny o sylfaen o adnoddau sy’n lleihau. Mae Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd yn bartneriaid allweddol wrth helpu i arwain a llywio datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y ddinas ac yn chwarae rôl allweddol wrth gyflawni'r uchelgeisiau yn WESP 2017-2020.

Mae'r Cynllun Cymraeg mewn Addysg sydd wedi'i gymeradwyo i'w weld ar wefan y Cyngor yn:

https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Eich-Cyngor/Strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/Addysg/Pages/default.aspx


**Amcanion 2019/20**

- Sefydlu dalgylch i Ysgol Gynradd Gymraeg Hamadryad;
- Newidiadau i ddalgylchoedd Ysgol Mynydd Bychan, Ysgol Gymraeg Nant Caerau, Ysgol Gymraeg Pwll Coch ac Ysgol Gymraeg Treganna.
- Trosglwyddo dalgylch Ysgol Glan Morfa o Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf i Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern.
- Ymgynghori a symud ymlaen i sefydlu Ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg newydd i wasanaethu ardal Datblygiad Plas Dŵr ym Mhentre-poeth / Radur.
- Ehangu Ysgol y Wern – a ariennir gan arian Grant Cyfalaf Llywodraeth Cymru.
- Datblygu cynigion i wella darpariaeth *feithrin* ar draws Caerdydd.
- Datblygu cynigion i wella'r ddarpariaeth gynradd yng nghanol Caerdydd.

## 5. Cyfieithu Cymraeg

Dychwelwyd **98.6%** o geisiadau cyfieithu gan Gaerdydd Ddwyieithog erbyn terfynau amser cytunedig (**12,632,732 o eiriau**). Cyfieithodd y tîm fwy o eiriau nag unrhyw flwyddyn flaenorol; cynnydd o **10%** yn nifer y geiriau a gyfieithwyd o'i gymharu â 2018-19, yn ogystal â darparu gwasanaethau cyfieithu Cymraeg i Gyngor Caerdydd, mae Caerdydd Ddwyieithog wedi sefydlu cytundebau cytundeb lefel gwasanaeth gyda nifer o sefydliadau cyhoeddus eraill ar gyfer gwasanaethau cyfieithu.

## Nifer y geiriau a gyfieithwyd gan Caerdydd Ddwyieithog 2004/5 – 2019/20




| | 2004-05 | 2005-06 | 2006-07 | 2007-08 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sefydliad Allanol / External Orgs | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 187,718 | 188,149 | 358,478 | 338,606 | 263,764 | 162,960 | 1,768,819 | 2,245,528 | 3,691,767 | 4,704,130 |
| Caerdydd / Cardiff | 785,821 | 1,230,660 | 2,014,680 | 2,190,763 | 2,968,496 | 2,996,344 | 2,916,464 | 3,845,247 | 4,364,673 | 4,437,323 | 4,566,285 | 4,884,574 | 6,584,014 | 6,782,122 | 7,796,566 | 7,928,602 |

## 6. Cwynion yn erbyn Safonau'r Gymraeg 2019-20

Yn ystod 2019/20, derbyniwyd cyfanswm o **13** o gwynion gan y cyhoedd mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg. Pa un a dderbyniwyd cwynion drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, aethpwyd i'r afael â hwy yn unol â'r weithdrefn gwyno gorfforaethol.

Roedd y Cyngor hefyd yn destun **11** ymchwiliad newydd i'r methiant posibl o gydymffurfio â'r safonau dan adran 71 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Yn 2019-20, derbyniodd y Cyngor:

- **1** penderfyniad terfynol yn cadarnhau bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Mae hyn yn parhau.
- **1** penderfyniad dros dro yn cadarnhau bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Mae hyn yn parhau.
- **1** ymchwiliad yn aros am benderfyniad dros dro. Mae hyn yn parhau.
- **1** ymchwiliad yn aros am gylch gorchwyl. Mae hyn yn parhau.
- **1** ymchwiliad pan fo'r Cyngor wedi hysbysu Comisiynydd y Gymraeg nad oedd pwnc yr ymchwiliad yn dod o fewn ei feysydd cyfrifoldeb. Mae hyn yn parhau.
- **1** ymchwiliad lle y gofynnwyd am wiriad. Mae hyn yn parhau.
- **1** penderfyniad terfynol yn cadarnhau na thorrwyd safonau'r Gymraeg. Mae hwn wedi'i gau.
- **4** penderfyniad terfynol yn cadarnhau bod ymchwiliad yn ddiangen neu'n annilys. Mae'r rhain wedi'u cau.

Mae cofrestr o gamau gorfodi ar gael i'w gweld ar wefan Comisiynydd y Gymraeg

Mae nifer yr ymchwiliadau newydd a dderbyniwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg (**11**) yn is nag yn 2018-19 (**12**).

## 7. Swyddi a hysbysebwyd yn 2019-20

Yn ystod 2019-20 cafodd **1226** o swyddi eu hysbysebu.

- Hysbysebwyd **35** o swyddi lle’r oedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol.
- Hysbysebwyd **93** o swyddi lle’r oedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol.
- Hysbysebwyd **1098** o swyddi, lle ystyriwyd nad oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol ar hyn o bryd.

Nodwch fod y ffigyrau hyn hefyd yn cynnwys swyddi wedi’u hail-hysbysebu, **ac yn ymwneud â swyddi heb fod mewn ysgolion**

Nid oes gwybodaeth ar hyn o bryd gan y Cyngor yn ymwneud â sgiliau Cymraeg, y mae angen eu dysgu pan gaiff pobl eu penodi i swyddi sy’n dynodi bod y Gymraeg naill ai’n hanfodol, yn ddymunol neu nad oes ei hangen, dan Strategaeth Sgiliau Cymraeg y Cyngor. Mae achosion wedi bod pan fo swyddi wedi’u hail-hysbysebu gan ei gwneud hi’n ofynnol i’r ymgeiswyr llwyddiannus fynychu hyfforddiant iaith Gymraeg.

## 8. Cyrsiau Hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a Hyfforddiant Iaith Gymraeg

Yn 2019-20, cymerodd **158** aelod o staff ran mewn cyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg, ac o'r rhain:

- mae **11** aelod o staff wedi cwblhau cwrs 10 awr ar-lein 'Croeso Cymraeg' ac mae **5** o'r rhain wedi gwneud modiwlau dilynol Croeso’n Ôl.
- mynychodd **15** aelod o staff gyrsiau Cymraeg trwy Brifysgol Caerdydd.
- mynychodd **3** aelod staff gyrsiau preswyl 5 diwrnod drwy'r cynllun 'Cymraeg Gwaith'.
- mynychodd **110** aelod o staff hyfforddiant Cymraeg a ddatblygwyd yn fewnol gan gynnwys cyrsiau blasu a byr (**40** wedi mynychu) cyrsiau dwys 120 awr (**39** wedi mynychu) hyfforddiant staff derbynfa pwrpasol (**39** wedi mynychu) (mynychodd rhai aelodau o staff fwy nag un cwrs).
- mynychodd **26** aelod o staff gyrsiau 120 awr dwys drwy'r cynllun 'Cymraeg Gwaith'.

Yn 2019-20, cwblhaodd **955** aelod o staff hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg; o'r rhain:

- Mynychodd **25** aelod o staff o’r Gwasanaethau Oedolion a Phlant Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg wyneb yn wyneb a ddarparwyd gan Gydlynydd y Gymraeg ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion.

- Cwblhaodd **16** prentis corfforaethol hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg fel rhan o'r Wythnos Hyfforddi Prentisiaid.
- Cwblhaodd **914** aelod o staff hyfforddiant ar-lein Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg Corfforaethol.

Ar ben hyn:

- Mae **3441** aelod o staff wedi cwblhau modiwl ymwybyddiaeth iaith Gymraeg ers ei lansio fis Medi 2015.

Caiff nifer a chanran y staff sydd wedi derbyn Hyfforddiant Iaith Gymraeg a Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg eu monitro'n agos a chaiff cofnodion unigol eu cadw ar System AD fewnol y Cyngor (DigiGOV).

Mae safon rhif 128 wedi'i chyflwyno i Gyngor Dinas Caerdydd, sy'n nodi bod rhaid i ni ddarparu hyfforddiant i staff yn Gymraeg yn y meysydd canlynol, os cânt eu darparu yn Saesneg:

- Recriwtio a chyfweld;
- Rheoli perfformiad;
- Cwynion a gweithdrefnau disgyblu;
- Sefydlu;
- Delio â'r cyhoedd; ac
- Iechyd a diogelwch.

Mae trefniadau ar waith i sicrhau y gall staff wneud cais i dderbyn eu hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â safon 128.  Yn 2019-20 **nid oedd unrhyw** geisiadau am hyfforddiant yn Gymraeg a chyflwynwyd y cyrsiau canlynol yn Gymraeg:

- Trais yn Erbyn Menywod a Cham-drin Domestig (modiwl ar-lein)
- Seiberddiogelwch 1, 2 a 3 (modiwl ar-lein)
- Hawliau Plant (modiwl ar-lein)

- Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg (modiwl ar-lein)

- Gwasanaeth Cwsmeriaid (modiwl ar-lein)

- Bob's Business: GDPR (modiwl ar-lein)

Mae Academi Caerdydd yn bwriadu ychwanegu cwestiwn penodol ar gyfrwng cyflwyno i'r broses gofrestru yn y dyfodol i sicrhau bod hyfforddiant yn Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n weithredol a bod staff yn ymwybodol o'u hawl i dderbyn hyfforddiant yn y meysydd uchod, yn Gymraeg. Lle mae'r galw'n ddigonol, byddwn yn anelu at ddatblygu capasiti ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn fewnol.

## 9. Sgiliau Cymraeg Cyflogeion

Gyda datblygiad y system AD (DigiGov) a'r cyfle i aelodau o staff ddilysu eu data personol eu hunain, mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i gofnodi sgiliau Cymraeg (ac ieithoedd eraill) aelodau o staff. Ar 31 Mawrth 2020, nodwyd bod **6410** o aelodau staff (nad ydynt mewn ysgolion) yn cael eu cyflogi gan Gyngor Caerdydd, ac o'r rhain, dilysodd cyfanswm o **3102** o aelodau o staff eu cofnodion ar y system AD. O'r rhain mae **776** aelod o staff wedi nodi bod ganddynt sgiliau iaith Gymraeg. Mae hyn yn cynrychioli **25%** o'r rhai sydd wedi cofrestru ar y system.

| **Cyfrif Hyfedredd yn y Gymraeg** | **Hyfedredd yn y Gymraeg** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **Lefel Mynediad** | **Sylfaenol** | **Canolradd** | **Uwch** | **Hyfedr** | **Cyfanswm** |
| DATBLYGU ECONOMAIDD | 32 | 12 | 14 | 6 | 10 | 74 |
| ADDYSG A DYSGU GYDOL OES | 37 | 7 | 11 | 8 | 18 | 81 |
| LLYWODRAETHIANT A GWASANAETHAU CYFREITHIOL | 11 | 3 | 5 | 4 | 4 | 27 |
| TAI A CHYMUNEDAU | 108 | 40 | 21 | 17 | 26 | 212 |
| PERFFORMIAD A PHARTNERIAETHAU | 5 | 4 | 4 | 1 | 16 | 30 |
| CYNLLUNIO, TRAFNIDIAETH A'R AMGYLCHEDD | 37 | 8 | 9 | 4 | 10 | 68 |
| ADNODDAU | 51 | 24 | 13 | 9 | 21 | 118 |
| GWASANAETHAU CYMDEITHASOL | 82 | 32 | 18 | 15 | 19 | 166 |
| **Cyfanswm** | **363** | **130** | **95** | **64** | **124** | **776** |

Mae nifer y staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg wedi cynyddu gan **48.4%** ers 2018-19 (**776** o'i gymharu â **523**)**.** Priodolir y cynnydd i well trefniadau cofnodi a chodi ymwybyddiaeth, a'r Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog (sy'n cynnwys targed i gynyddu nifer y staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg a chyrsiau Cymraeg a ddarperir drwy'r Cynllun 'Cymraeg Gwaith'). Atgoffir staff yn rheolaidd i ddiweddaru eu cofnodion manylion personol ar

DIGIGOV, sy'n cynnwys hyfedredd yn y Gymraeg.

## 10. Mwy na Geiriau
**Fframwaith Strategol ar gyfer yr Iaith Gymraeg ym maes Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol**

Mae Cyngor Caerdydd – mewn partneriaeth â Chyngor Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre – yn gweithredu Fforwm Iaith Gymraeg i barhau ag amcanion Mwy na Geiriau.

Cyfarfu'r Fforwm ddwywaith yn ystod y flwyddyn i rannu arferion a dysgu. Mae'r grŵp yn datblygu'r themâu canlynol o dan yr amcanion Mwy na Geiriau. Mae'r grŵp ar y cyd wedi cymryd y camau cysylltiedig ymlaen yn ystod 2019/20.

## 11. Monitro a Goruchwylio Cydymffurfiaeth â'r Safonau

**CYDYLYNWYR A PHENCAMPWYR Y GYMRAEG**
Mae gan y Cyngor rwydwaith o gydlynwyr a phencampwyr y Gymraeg ledled ein Cyfarwyddiaethau a'n Gwasanaethau amrywiol, sy'n cefnogi gwaith tîm Caerdydd Ddwyieithog o ran gweithredu Safonau'r Gymraeg a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol. Mae swyddogaeth rhwydwaith y cydlynwyr yn cynnwys:

- Cynorthwyo eu gwasanaeth neu gyfarwyddiaeth i gydymffurfio â pholisïau a rhwymedigaethau cyfreithiol y Cyngor parthed y Gymraeg.
- Rhoi adborth ar unrhyw faterion yn ymwneud â'r Gymraeg gan y gwasanaeth i'r grŵp, ac fel arall yn ôl yr angen.
- Rhoi adborth ar unrhyw gwynion neu faterion yn ymwneud â'r Gymraeg gan ddefnyddwyr gwasanaeth i'r grŵp.
- Dosbarthu dogfennaeth berthnasol a gwybodaeth o fewn y gwasanaethau.
- Cydlynu ymateb eu gwasanaeth i'r Adroddiad Blynyddol ar weithrediad safonau'r Gymraeg.

Nid oes angen i gydlynwyr a phencampwyr siarad Cymraeg, ac mae pob cyfarwyddiaeth yn gyfrifol dros enwebu o leiaf un Cydlynydd, ac un Pencampwr, ar lefel Rheolwr Gweithredol neu uwch, i gynrychioli eu cyfarwyddiaeth.

Mae'r Pencampwr yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar lefel uwch reoli yn gysylltiedig â materion penodol yn ymwneud â'r Gymraeg. Maen nhw hefyd yn monitro agendâu grwpiau uwch reoli ar gyfer eitemau yn ymwneud â goblygiadau Safonau'r Gymraeg a chefnogi Cydlynydd Cymraeg

eu gwasanaeth ar hwyluso gweithredu Safonau'r Gymraeg o fewn eu cyfarwyddiaethau. Mae cyfarfodydd Cydlynwyr y Gymraeg yn cael eu cynnal bob mis ac yn cael eu cadeirio gan Gaerdydd Ddwyieithog.

**CYNLLUNIAU CYFLAWNI CYFARWYDDIAETHAU**
Er mwyn monitro cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg, mae gofyn i bob cyfarwyddiaeth gynnwys amcan/amcanion yn ymwneud â chyflawni safonau'r Gymraeg o fewn Cynlluniau Cyflawni eu Cyfarwyddiaethau yn flynyddol er mwyn sicrhau perchnogaeth gorfforaethol ar ofynion y safonau.

**UWCH DÎM RHEOLI**
Mae materion yn ymwneud â safonau'r Gymraeg gan gynnwys gwybodaeth am ymchwiliadau Comisiynydd y Gymraeg yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd i gyfarfodydd yr UDRh er gwybodaeth a llywio.

**GRŴP AELODAU CAERDYDD DDWYIEITHOG**
Mae'r Grŵp Aelodau Caerdydd Ddwyieithog yn grŵp traws blaid a sefydlwyd i gymryd rôl arweiniol o ran datblygu Caerdydd cwbl ddwyieithog lle gall dinasyddion a staff Cyngor Caerdydd gyrchu gwasanaethau a chymorth yn y naill iaith neu'r llall yn gyfartal trwy waith partneriaeth gwell. Yn ystod 2019-20 cyfarfu'r grŵp 4 gwaith i drafod materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg, gan gynnwys gweithredu Safonau'r Gymraeg a Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2017-2022 (Safon 145) yn ogystal â nifer o gyflwyniadau allanol gan bartneriaid yn y Fforwm Caerdydd Ddwyieithog (Fforwm yr iaith Gymraeg gynt) gan gynnwys gan Gomisiynydd y Gymraeg, Llywodraeth Cymru a Chanolfan Bedwyr (Prifysgol Bangor).

**Y CABINET A'R CYNGOR LLAWN**
Caiff Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg Cyngor Caerdydd ei ystyried gan y Cabinet a'r Cyngor llawn er mwyn sicrhau gwaith craffu ar y lefel uchaf.

## 12. Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg 2018-19

Ym mis Awst 2019, cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg yr Adroddiad Sicrwydd Blynyddol diweddaraf "***Hawliau ar Waith***" i ddangos sut mae sefydliadau yn perfformio a beth yw profiad defnyddwyr.

Bwriad yr adroddiad yw annog sefydliadau i sicrhau bod eu darpariaeth yn sicrhau hawl pobl i dderbyn gwasanaethau Cymraeg, ac i gynyddu'r defnydd a wneir o'r gwasanaethau hynny.

Mae'r Comisiynydd yn casglu ac yn dadansoddi data meintiol ac ansoddol o amryw ffynonellau i'r canfyddiadau.

Mae'r ffynonellau'n cynnwys:

- **monitro** – arolygon o brofiad defnyddwyr, gwirio adroddiadau a chofnodion blynyddol, ac adolygiadau thematig;
- **ymgysylltu â'r cyhoedd** – grwpiau trafod, arolwg barn, sesiynau cysgodi defnyddwyr;
- **ymgysylltu â sefydliadau** – cyfarfodydd adborth, gweithdai, cwynion ac ymchwiliadau

Mae copi o'r adroddiad llawn **ar gael ar-lein**

**Trosolwg Cenedlaethol**

- Mae defnyddwyr yn llai tebygol o allu derbyn gwasanaethau mwy personol, neu sy'n sensitif i amser, yn Gymraeg.
- Sawl enghraifft o wasanaeth Cymraeg yn cael ei gynnig neu ei hysbysebu, ond ddim ar gael mewn gwirionedd, er enghraifft staff di-Gymraeg yn gwisgo'r logo *Iaith Gwaith*, neu ddiffyg parhad iaith rhwng gwahanol gamau gwasanaeth.
- Mae'n galonogol bod gwasanaethau derbynfa wedi gwella, ond mae lefel y perfformiad yn parhau'n annerbyniol.
- Mae'r atchweliad o ran gwasanaethau ffôn yn destun pryder, ac mae hyn yn cael ei waethygu gan ymddygiad anghwrtais staff sy'n ateb y ffôn, achos Tribiwnlys lle'r oedd sefydliad wedi camddehongli safon yn ymwneud â gwasanaeth ffôn, a phryderon sefydliadau ynghylch recriwtio staff rheng flaen.

**(Comisiynydd y Gymraeg)**

## Prif ganlyniadau archwiliadau arolygu Cyngor Caerdydd 2018-19

Rhannodd Comisiynydd y Gymraeg ganlyniadau penodol Cyngor Caerdydd gyda swyddogion Caerdydd Ddwyieithog ym mis Tachwedd 2019. Mae canlyniadau profiad y defnyddiwr ar gyfer Cyngor Caerdydd yn gadarnhaol iawn ac yn adlewyrchu cydymffurfiad llawn bron a bod â'r safonau.

**Gohebiaeth**

- Tri e-bost Cymraeg a thri e-bost Saesneg wedi’u hanfon i'r cyfeiriad canlynol: c2c@caerdydd.gov.uk rhwng Mehefin a Rhagfyr 2018.
- Derbyniwyd tri ymateb Cymraeg i dri e-bost Cymraeg.

- Roedd tri o'r ymatebion i'r e-byst Cymraeg yn cynnwys datganiad yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.
- Cafwyd tri ymateb i'r negeseuon e-byst Saesneg.
- Roedd tri o'r ymatebion i'r e-byst Saesneg yn cynnwys datganiad yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.

**Galwadau ffôn**

- Gwnaed tair galwad ffôn i rif 02920 872088 y Cyngor yn ystod mis Awst a Rhagfyr 2018.
- Roedd dewisiadau iaith Gymraeg awtomatig ar gael yn ystod yr holl alwadau hyn **(100%).**
- Llwyddodd y Cyngor i ddelio â'r holl alwadau yn Gymraeg yn eu cyfanrwydd a llwyddodd i ddarparu ateb llawn yn Gymraeg i'r ymholiadau.

**Dogfennau**

- Agendâu, papurau a chofnodion y Bwrdd Rheoli / Cabinet diweddaraf: roedd 3/3 ar gael *rhannol* yn Gymraeg.
- Llyfryn, taflen, pamffled neu gerdyn: 3/3 ar gael yn Gymraeg.
- Polisi / strategaeth / adroddiad blynyddol / cynllun corfforaethol: 3/3 ar gael yn Gymraeg.
- Canllaw / cod ymarfer: 3/3 ar gael yn Gymraeg.
- Papurau ymgynghori: 3/3 ar gael yn Gymraeg.
- Rheolau: 1/1 ar gael yn Gymraeg.
- Datganiadau i'r wasg: 3/3 ar gael yn Gymraeg.
- Ffurflenni: 3/3 ar gael yn Gymraeg.

**Gwefan**

- Mae gwefan y Cyngor yn cynnig Cymraeg mewn modd rhagweithiol.

- Mae prif hafan y sefydliad ar gael yn Gymraeg.
- O'r 30 tudalen we a gafodd eu harolygu, roedd pob un ohonynt yn gweithio'n llawn yn Gymraeg.

**Appiau**

- O'r 10 tudalen a gafodd eu harolygu, roedd pob un yn gweithio'n llawn yn Gymraeg.

**Y Cyfryngau Cymdeithasol**

- Facebook: roedd 14/15 o negeseuon ar gael yn Gymraeg.
- Twitter: roedd 15/15 trydar ar gael yn Gymraeg.

**Hunaniaeth Gorfforaethol**

- Chwiliwyd am dair enghraifft o hunaniaeth gorfforaethol y Cyngor – roedd pob un ar gael yn Gymraeg.

**Swyddi**

- Yn ystod y cyfnod arolygu, arolygwyd 118 o swyddi gwag newydd/presennol.
- Crybwyllwyd Cymraeg yn 44 (37%) o'r swyddi.
- Cafodd Cymraeg ei chynnwys fel sgil hanfodol ar gyfer **11** o'r swyddi dan sylw.
- Cafodd Cymraeg ei chynnwys fel sgil dymunol ar gyfer **29** o'r swyddi dan sylw.
- Hysbysebwyd y swyddi i gyd yn Gymraeg.
- Roedd modd gwneud cais Cymraeg ar gyfer yr holl swyddi.

## 13. Hyrwyddo a Hwyluso’r Safonau

**CANLLAWIAU I STAFF** Er mwyn hyrwyddo a hwyluso rhoi'r safonau ar waith, mae'r Cyngor wedi creu a diweddaru canllawiau i staff. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Crynodeb o 'Safonau Cyflawni Gwasanaeth'
- Cyfathrebu'n Ddwyieithog
- Gwasanaeth Dwyieithog Derbynfeydd
- Cynnal Cyfarfodydd yn Ddwyieithog
- Galwadau Ffôn Cymraeg
- Nodyn Canllaw: Arwyddion a Hysbysiadau Swyddogol Dwyieithog
- Canllawiau Cyfieithu
- Safonau'r Gymraeg: Canllaw Camau Cyflym
- Safonau'r Gymraeg: Canllaw i Drydydd Partïon

Mae'r canllawiau hyn ar gael i staff ar dudalen Mewnrwyd Caerdydd Ddwyieithog ac wedi eu hyrwyddo'n gyson i staff trwy ddulliau cyfathrebu cyfarwydd gan gynnwys y Brîff Craidd misol a chylchlythyron 'Welsh Matters' sy'n cael eu dosbarthu i'r holl staff. Mae erthyglau rheolaidd hefyd wedi ymddangos ar hafan mewnrwyd y Cyngor.

Mae arwyddion derbynfa (safon 67) a logos llofnod e-bost (safon 134) hefyd ar gael i aelodau staff ar dudalen fewnrwyd Caerdydd Ddwyieithog yn ogystal â chopi o'r safonau llawn, adroddiadau blynyddol, a'r ffurflen cais am gyfieithu ar-lein.

Mae cynnwys y we a'r ffurflen cais am gyfieithu wedi'u diweddaru i atgoffa staff i gynnwys y datganiadau corfforaethol i gydymffurfio â safonau 2, 4 a 7 (Gohebiaeth), 49 (ffurflenni) a 50A (dogfennau).

**BRÎFF 'WELSH MATTERS'**
Dosberthir y brîff Welsh Matters i staff drwy'r rhwydwaith cydlynwyr iaith Gymraeg. Mae'r brîff yn cynnwys cyngor polisi ar gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, gwybodaeth am hyfforddiant Cymraeg ac erthyglau eraill yn ymwneud â'r agenda iaith Gymraeg.

**CAERDYDD DDWYIEITHOG: CYNGOR POLISI A CHYFIEITHU** Mae Caerdydd Ddwyieithog yn cynnig gwasanaeth cyfieithu Cymraeg a chyfieithu ar y pryd llawn i bob Cyfarwyddiaeth yn y Cyngor.
Mae'r tîm yn cynnig arweiniad a chyngor i bob aelod o staff y Cyngor, ynghyd â sefydliadau, cwmnïau ac unigolion sy'n cynnig gwasanaethau ar ran y Cyngor, ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg, cyfieithu ac ymrwymiad y Cyngor i Safonau'r Gymraeg statudol.

**STRATEGAETH SGILIAU IAITH GYMRAEG GORFFORAETHOL**
Er mwyn sicrhau y gall y Cyngor gyflawni ei ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaeth dwyieithog cyflawn, mae ganddo Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg Gorfforaethol (WLSS). Cymeradwywyd y strategaeth ddiwygiedig hon gan y Cabinet ym mis Mawrth 2014 ac mae'n dwyn ynghyd ein gweithdrefnau staffio, hyfforddi a recriwtio er mwyn sicrhau bod gan bobl Caerdydd fynediad cyfartal i'n gwasanaethau, pa un a ydynt yn dewis delio â ni yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Mae pob rheolwr tîm yn gyfrifol am sicrhau bod eu timau'n gallu gwarantu gwasanaeth cyfartal i gwsmeriaid Cymraeg a Saesneg eu hiaith. Mae'r SSIG yn cynnwys offeryn asesu ieithyddol y dylai rheolwyr ei gwblhau wrth recriwtio i benderfynu a ddylai swyddi fod â sgiliau Cymraeg fel meini prawf hanfodol ('Cymraeg hanfodol') pan gânt eu hysbysebu.

Ers 2017, mae offeryn asesu ieithyddol y SSIG bellach wedi'i integreiddio i broses recriwtio DigiGOV er mwyn cydymffurfio â safon 136, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor asesu a oes angen sgiliau Cymraeg cyn hysbysebu unrhyw swydd wag. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i adrodd a monitro'n gywir faint o swyddi sydd wedi'u dynodi'n rhai Cymraeg hanfodol neu ddymunol.

Er mwyn gwarantu gwasanaeth dwyieithog ar y pwynt cyswllt cyntaf bob amser (ar gyfer timau sy'n cysylltu'n rheolaidd â'r cyhoedd) byddai hyn yn gofyn am:

- o leiaf 10% o staff mewn timau mwy (dros 20 aelod o staff) â'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol, neu

- o leiaf 2 aelod o staff mewn timau llai, yn unol â'r SGIG.

Os na all tîm sy'n delio'n rheolaidd â'r cyhoedd warantu gwasanaeth dwyieithog (fel y diffinnir uchod), bydd swyddi'n cael eu dynodi'n rhai Cymraeg hanfodol (lefel 1 [mynediad] i 5 [hyfedr]) yn seiliedig ar ddyletswyddau'r swyddi. Mae'r holl swyddi derbynfa Cymraeg hanfodol wedi'u cynllunio ar lefel 3 o leiaf, ac mae gwybodaeth am sut i gwblhau'r asesiad o'r gofyniad iaith Gymraeg yn DigiGOV ar gael i reolwyr ar dudalennau mewnrwyd yr adran Adnoddau Dynol.

Hysbysebir yr holl swyddi Cymraeg hanfodol allanol yn rheolaidd ar www.lleol.cymru gwefan sy'n arbenigo mewn swyddi Cymraeg hanfodol ar gyfer sefydliadau ledled Cymru.

**HYFFORDDIANT CYMRAEG** Cefnogir staff i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg wrth gyfathrebu â’r cyhoedd. Ar hyn o bryd gall staff ddewis o blith dros 100 o gyrsiau a gymeradwyir ym Mhrifysgol Caerdydd neu yn y gymuned, sy'n amrywio o ddysgwyr llwyr i siaradwyr rhugl ar adeg a lleoliad sy'n gyfleus iddyn nhw.
O fis Medi 2018, mae Academi Caerdydd wedi penodi hyfforddwr sy'n gyfrifol am ddarparu hyfforddiant Cymraeg i staff y Cyngor.

Ceir cyllideb gorfforaethol ar gyfer hyfforddiant Cymraeg, felly mae’r cyrsiau am ddim i staff Cyngor Caerdydd a chredydir oriau staff am yr amser a neilltuir ganddynt wrth fynychu cyrsiau. Rhoddir blaenoriaeth i staff rheng flaen.

Trwy'r cynllun 'Cymraeg Gwaith' mae staff y Cyngor wedi mynychu nifer o gyrsiau Cymraeg gan gynnwys cwrs 10 awr ar-lein 'Croeso Cymraeg', cyrsiau Cymraeg preswyl 5 diwrnod a chyrsiau Cymraeg dwys newydd. Mae'r cyrsiau hyn i gyd yn cael eu hariannu'n llawn gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

**HYFFORDDIANT YMWYBYDDIAETH IAITH GYMRAEG** Mae modiwl hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg ar-lein wedi’i greu i staff Cyngor Caerdydd, ac mae ar gael ar dudalen Academi Caerdydd.

Nod yr hyfforddiant yw sicrhau bod staff yn:

- Deall pwysigrwydd y Gymraeg o ran darparu gwasanaethau'r Cyngor yng Nghymru.
- Deall eu rôl a’u cyfrifoldeb eu hunain o ran cynnig gwasanaethau Cymraeg a dwyieithog.
- Asesu sut rydych yn darparu gwasanaethau Cymraeg ar hyn o bryd a nodi meysydd sydd i'w gwella.
- Deall a gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg syml a allai fod yn ddefnyddiol wrth ymwneud â defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg eu hiaith.

**LANIARDIAU A BATHODYNNAU ‘**IAITH GWAITH'
Cynhyrchir laniardiau Iaith Gwaith gan Gomisiynydd y Gymraeg ar gyfer staff sy'n siarad Cymraeg er mwyn dangos i ddefnyddwyr gwasanaeth a chydweithwyr bod staff yn siarad Cymraeg. Cynigir y laniardiau hyn ynghyd â laniardiau dysgwr Cymraeg i staff pan fyddant yn derbyn neu'n adnewyddu cardiau adnabod staff, neu maent ar gael ar unrhyw adeg gan y tîm Caerdydd Ddwyieithog. Mae pob brîff misol 'Welsh Matters' sy'n cael ei ddosbarthu i bob aelod o staff trwy Gydlynydd Iaith Gymraeg eu Cyfarwyddiaeth neu eu gwasanaeth yn cynnwys nodyn i atgoffa staff i ofyn am y laniardau gan y tîm Caerdydd Ddwyieithog.

**ATODIAD 1**
**Ymchwiliadau i Gwynion 2019-2020 Comisiynydd y Gymraeg**

| CYF | DISGRIFIAD | CYFARWYDD-IAETH | PENDERFYNIAD / STATWS | DYDDIAD DERBYN | DYDDIAD PENDER-FYNIAD TER-FYNOL |
|---|---|---|---|---|---|
| **CSG547** | **i.** Honiad ynghylch arwyddion ar y cerbyd CU67 VXK yn ogystal ag ar gerbydau eraill y Cyngor (ni chedwir offer, mya a phwys fesul modfedd sgwâr).<br><br>**ii.** Honiad bod logo corfforaethol y Cyngor yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>**iii.** Honiad bod yr arwyddion matrics canlynol yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg:<br><br>➢ Arwydd ar yr A48 tua'r dwyrain ar 6 Mawrth 2019 am tua 19:00 yn nodi "Delays Ahead" yn Saesneg yn unig.<br><br>➢ Arwydd ar yr A48 tua'r gorllewin ar 6 Mawrth 2019 am tua 21:30 yn dangos "Gyrrwch yn AFOSUL".<br><br>➢ Arwydd ar yr A4243 am tua 12:30 ar 9 Mai 2019 yn dangos "CARDIFF WEST, PARK + RIDE, NEXT LEFT".<br><br>**iv.** Honiad bod hysbysiad cyhoeddus Saesneg yn unig wedi'i osod ger Neuadd y Dref yn cuddio fersiwn Gymraeg yr hysbysiad. | Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd (Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog, Strydlun) | Safon(au) wedi'i Thorri. | 10/05/2019 | 19/03/2020 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **CSG547** | Cylchlythyr Saesneg yn unig wedi'i anfon gan Ganolfan Ymchwil Caerdydd *(Fersiwn Gymraeg wedi dilyn 1 diwrnod yn ddiweddarach)* | Canolfan Ymchwil Caerdydd, Polisi a Phartneriaethau | Dim Ymchwiliad | 19/06/02019 | Dd/B |
| **CSG610** | Honiad bod yr achwynydd wedi derbyn llythyrau Saesneg yn unig gan Wasanaethau Parcio'r Cyngor. | Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd (Parcio) | Penderfyniad Dros Dro – Safon(au) wedi'i Thorri | 13/08/2019 | PARHAUS |
| **CSG638** | Honiad nad yw rhannau o wefan y Cyngor ar gyfer adnewyddu trwyddedau parcio yn gweithio'n llawn yn Gymraeg. Y wefan dan sylw yw<br><br>https://www.councilparking.org/cardiff/cym/pages/home.aspx. | Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd (Parcio) | Dim Ymchwiliad | 10/09/2019 | 28/04/2020 |
| **CSG647** | Honiad<br><br>**i.** bod testun Saesneg yn unig ('stamp amser a dyddiad') yn ymddangos ar luniau gan y Tîm Parcio.<br><br>**ii.** ymdriniwyd apêl Hysbysiad Tâl Parcio a gyflwynwyd yn Gymraeg trwy'r Saesneg gan arwain at oedi wrth ymateb. | Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd (Parcio) | Yn Aros am Benderfyniad Dros Dro - tystiolaeth wedi'i chyflwynwyd i Gomisiynydd y Gymraeg ar 19/02/20 | 04/10/2019 | PARHAUS |
| **CSG648** | Honiad na wnaeth e-bost Cymraeg a anfonwyd i Parking.permits@cardiff.gov.uk ar 27/09/2019 dderbyn ateb | Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd (Parcio) | Cais dilysu wedi dod i law ar 14/05/20 | 04/10/2019 | PARHAUS |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **CSG656** | Honiad bod set o arwyddion electronig dros dro wedi'i harddangos ar Heol Casnewydd a Stryd y Castell yn hysbysu'r cyhoedd bod Heol y Porth ar gau yn arddangos testun yn Saesneg yn unig. | Allanol (Dŵr Cymru) | Dim Ymchwiliad | 21/10/2019 | 20/12/2019 |
| **CSG673** | Neges Facebook noddedig uniaith Saesneg gan Croeso Caerdydd ynghylch Ras Fôr Volvo. | Datblygu Economaidd | Heb dorri Safonau | 03/12/2019 | 28/04/2020 |
| **CSG674** | Cwyn ynghylch honiad bod y Cyngor wedi penderfynu codi tâl ar fyfyrwyr sy'n byw o fewn 3 milltir i Ysgol Gymraeg Glantaf am drafnidiaeth i'r ysgol. | Addysg a Dysgu Gydol Oes | Dim Ymchwiliad | 03/12/2019 | 22/01/2020 |
| **CSG708** | Honiad bod<br>**i.** y Cyngor wedi ymateb i e-bost Cymraeg yn Saesneg,<br>**ii.** yr ymwadiad safonol ar negeseuon e-bost y Cyngor yn dangos y Saesneg uwchben y testun Cymraeg,<br>**iii.** y Cyngor yn defnyddio cyfeiriad @cardiff.gov.uk fel y cyfeiriad arddangos, gan drin y Gymraeg yn llai ffafriol | Corfforaethol | Wedi ymateb i'r llythyr gwreiddiol. Yn aros am Gylch Gorchwyl | 18/02/2020 | PARHAUS |
| **CSG712** | Arwydd ffordd dros dro Saesneg yn unig ar Salisbury Rd Cathays | Priffyrdd | Roedd yr ymchwiliad yn dangos and oedd yna unrhyw arwyddion a oedd yn gyfrifoldeb y Cyngor - rhoddwyd gwybod i | 25/02/2020 | PARHAUS |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gomisiynydd y Gymraeg am hyn. | | |

**ATODIAD 2**
**Cynllun Gweithredu Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2019/20**

## Adran 1: Teuluoedd, Plant a Phobl Ifanc

| CYF | BLAENORIAETH | AMCANION | TARGED | AMSERLEN | DIWEDDARIAD |
|---|---|---|---|---|---|
| **1.1** | **Hyrwyddo manteision Addysg Gymraeg i holl gymunedau Caerdydd a rhoi Cynllun Gweithredu'r Gymraeg mewn Addysg ar waith** | Rhannu gwybodaeth â darpar rieni a rhieni newydd, parthed addysg Gymraeg a gofal plant trwy'r sector iechyd. | Cymraeg i Blant i drefnu dau ymweliad y mis â chlinigau a grwpiau cyn-geni ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd. | Ebrill 2019 – Ebrill 2020 | Cyrsiau *Fy Mabi a Fi* wedi eu cyflwyno'n rhithiol i 20 o rieni yn ystod y cyfnod clo.<br><br>Sesiynau peilot ymarfer Cymraeg hefyd wedi'u cynnal yn rhithiol i 14 o rieni fel dilyniant i'r cwrs uchod.<br><br>Disgwylir i'r cyrsiau barhau yn Medi 2020 a Ionawr 2021.<br>**Mudiad Ysgolion Meithrin** |
| | | Treialu digwyddiad 'un mewn miliwn' gan dargedu disgyblion blwyddyn 8 a 9 yn Ysgol Plasmawr gan ddangos gwerth addysg Gymraeg a manteision dwyieithrwydd ar yr oed allweddol hwn. Cyflwyno i ysgolion uwchradd Cymraeg eraill os yw'r canlyniadau yn gadarnhaol | Holiaduron seicoleg iaith cyn ac wedi'r digwyddiad | Tachwedd 2019 | Cynhaliwyd y digwyddiad ym mis Hydref 2019 â disgyblion Blwyddyn 8 gan gynnig gweithdai amrywiol gan Ameer Rana-Davies, Betsan Powys, Yr Urdd, Canolfan y Mileniwm, Menter Iaith Caerdydd a chriw Tafod yr ysgol. Cwblhawyd holiadur siarter iaith gan holl ddisgyblion yr ysgol cyn y digwyddiad ond roedd rhaid gohirio ail gyflwyno'r holiadur wedi'r digwyddiad o ganlyniad i Covid 19. Serch hynny cafwyd nifer o weithgareddau hwylus eraill ar draws y flwyddyn gan gynnwys taith i Lanllyn, gigs amrywiol, perchnogi radio'r ysgol a gweithgareddau dydd Miwsig Cymru, Dydd Santes Dwynwen a Diwrnod Shwmae Sumae.<br>**Ysgol Plasmawr** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cymryd rhan yn yr orymdaith i ddathlu 70 mlynedd o addysg Gymraeg yng Nghaerdydd | Yr holl bartneriaid i adrodd nôl i gyfarfod Fforwm Caerdydd Ddwyieithog | Mehefin 2019 | Cyfrannodd partneriaid Caerdydd Ddwyieithog i'r orymdaith lwyddiannus hon, cafwyd anerchiad gan Arweinydd y Cyngor a mynychodd disgyblion o bob ysgol Cymraeg yng Nghaerdydd yr orymdaith hanesyddol.<br>**Cyngor Caerdydd, Fforwm Caerdydd Ddwyieithog** |
| | | Cynnig rhaglen gynhwysfawr o gyrsiau Cymraeg i'r teulu a chyrsiau i deuluoedd mewn ardaloedd adfywio | 6 o gyrsiau | Medi 2019 – Awst 2020 | Sesiynau Ti a Fi wedi eu cynnal yn:<br>• Llyfrgell Treganna<br>• Rhiwbeina<br>• Y Rhâth<br>• Hyb Ystum Tâf<br>• Amgueddfa Sain Ffagan<br>• Gwaelod y Garth<br>• Ysgol Glan Morfa<br>• Creigiau<br>• Llanrhymni.<br><br>Roedd rhaid rhoi saib ar y sesiynau o ganlyniad i Argyfwng Covid 19 ac mae'n annhebygol bydd Ti a Fi yn ail ddechrau cyn y Nadolig. Rydym yn ystyried arbrofi gyda sesiynau Ti a Fi awyr agored yn yr Hydref.<br><br>Yn ystod y cyfnod clo, creuwyd tudalen Ti a Fi Rhithiol De Ddwyrain Cymru.<br><br>Gwaith Mudiad Meithrin dros y cyfnod clo:<br><br>• Diweddariadau at Gylchoedd Meithrin gan Mudiad Meithrin ar y cynllun saib a COVID 19 yn rheolaidd . Gwiriadau Iechyd i'w paratoi ar gyfer ail agor. Canllawiau a pholisïau yn cael eu creu ar gyfer ein haelodau. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | • Manylion taflen adloniant- gweler uchod . Wedi rhannu gyda rhieni ar wefannau a chyfryngau cymdeithasol<br>• Gwaith Swyddog Ti a Fi Caerdydd - cynnal sesiynau dros Facebook.Sesiynau wedi cychwyni dargedu ardaloedd SAS ( Cylch Meithrin newydd yn agora r safle YGG Pwll Coch Mis Medi )- Tudalen Facebook Ti a Fi Rhithiol De Ddwyrain / Virtual Ti a Fi South East Wales<br>• Cymraeg I Blant dros wefannau cyfryngau cymdeithasol- sesiwn pob dydd<br>• Clwb Cylch – sesiynau Cylch Meithrin<br>• Gŵyl Dewin a Doti gyda Martin Geraint ( 1-5 o Fehefin)<br>• Wythnos Cymraeg yn y Cartref<br>• #Syniadau Sydyn gan Academi Mudiad Meithrin - syniadau wedi rhannu gyda rhieni am weithgareddau ar gyfer plant<br>• Gwaith SAS ( Sefydlu a Symud- hynny yw, agor cylchoedd meithrin newydd yn sgil #Cymraeg 2050) yn parhau trwy gyfryngau cymdeithasol a chysylltiadau yn y byd Cymreig<br>• Rhai staff wedi eu rhoi ar saib. Gweithio gyda chylchoedd i baratoi ar gyfer ail agor naill ai ar ddiwedd y mis NEU ym Mis Medi.<br><br>Yn fras, rydym wedi ymestyn allan i gylchoedd ( staff a phwyllgorau) a rhieni yn ystod y cyfnod yma gorau gallwn drwy ddefnyddio e byst, Teams, Zoom ,Facebook, Trydar, ac Instagram.<br>**Mudiad Meithrin** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Trefnwyd cyrsiau Cymraeg i'r Teulu yn Sblot, Grangetown a Llanrhymni.<br>**Prifysgol Caerdydd** |
| | | Gweithio gydag ysgolion a'r unedau meithrin Cymraeg er mwyn cynnig gwersi i rieni a darpar rieni | 6 o gyrsiau | Medi 2019 – Awst 2020 | Gweler uchod.<br>**Prifysgol Caerdydd** |
| | | Datblygu Strategaeth Addysg Gymraeg newydd ar gyfer y Brifysgol gyfan er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Y bwriad yw llunio strategaeth erbyn diwedd 2019. Y Coleg Cymraeg yn bartner | Llunio strategaeth erbyn diwedd 2019. Yna cymeradwyo Strategaeth Addysg Gymraeg newydd. | Diwedd 2019 | Y broses o ddatblygu'r Strategaeth Addysg Gymraeg newydd wedi ei gwblhau ond nid oedd yn bosib ei lansio'n ffurfiol o ganlyniad i'r cyfnod cloi.<br>**Prifysgol Caerdydd** |
| **1.2** | **Gwella darpariaeth a safonau'r Gymraeg mewn ysgolion Cymraeg a Saesneg trwy gyfrwng Cynllun Strategol y** | Rhoi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017 – 2020 ar waith | Cynyddu canran y dysgwyr sydd yn ennill A*- C mewn Cymraeg Iaith Gyntaf TGAU erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 4 i 85% erbyn 2020. | 2020 | Nid ydym bellach yn adrodd ar trothwy mesur cyfnod allweddol 4 (A*-C, L1, L2, L2+).<br><br>Y prif fesur ar gyfer hyn bydd Pwyntiau Llythrennedd Cyfartalog o haf 2019. Mae'r mesurau newydd yn seiliedig ar bwyntiau.<br>**Cyngor Caerdydd** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Gymraeg mewn Addysg** | | Cynyddu nifer y dysgwyr sydd yn astudio'r cwrs Cymraeg Ail Iaith amser llawn i o leiaf 80% erbyn 2020. | 2020 | Bydd canlyniadau perfformiad terfynol 2019 ar gael ym mis Ionawr 2020. Diweddariadau pellach heb ddod i law eto.<br>**Cyngor Caerdydd** |
| | | | Cynyddu canran carfan blwyddyn 11 sy'n ennill graddau A* - C mewn Cymraeg ail iaith TGAU i 40% erbyn 2020. | 2020 | Yn 2017-18 y canlyniad oedd 86.7% A*-C ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf o'i gymharu â 74.3% ar draws Cymru.<br>**Cyngor Caerdydd** |
| | | Cynnig cyrsiau DPP i athrawon a chynorthwywyr dysgu yn y sector Gymraeg a Saesneg | Cynllun Sabothol: Dau gwrs blwyddyn i 14 ymarferwr addysg o Gonsortiwm Canolbarth y De a Consortiwm y De Ddwyrain + cyrsiau atodol lle bo galw | Medi 2019 – Awst 2020 | Cynhaliwyd dau gwrs blwyddyn i athrawon (Consortiwm Canolbarth y De ac EAS) gyda 28 o fynychwyr. Cynhaliwyd un cwrs byrrach i gynorthwywyr dysgu (Consortiwm Canolbarth y De) gyda 12 mynychwr. Bu'n rhaid gohirio dau gwrs oherwydd cyfnod y cloi.<br>**Prifysgol Caerdydd** |
| | | Cynnal dosbarthiadau adolygu a dosbarthiadau meistri ar gyfer myfyrwyr Lefel-A Mamiaith ac Ail-Iaith | Yn ôl y galw [heb ei bennu eto, ond fel rheol yn cynnal o leiaf un dosbarth meistr yng Nghaerdydd] | Medi 2019 – Awst 2020 | Cynhaliwyd Dosbarthiadau Meistr (bl. 12 a 13) â:<br>Ysgol Bro Teifi (04/11/2019);<br>Ysgol Glan Clwyd (07/11/2019);<br>Ysgol David Hughes (08/11/2019); a<br>Ysgol Bro Edern (21/01/2020).<br><br>Mynychodd 120 o ddisgyblion y dosbarthiadau meistr yn Ysgol Bro Edern a cynhaliwyd Cynhadledd Adolygu Ail Iaith (bl. 12 a 13) ym Mhrifysgol Caerdydd ar 24/01/2020 gyda 59 yn bresennol.<br>**Prifysgol Caerdydd** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **1.3** | **Hyrwyddo manteision trosglwyddo'r Gymraeg o fewn y teulu, a rhoi'r cyfle i blant a phobl ifanc i ddod yn oedolion hyderus.** | Ymweld â 50% o bob ysgol Gymraeg yng Nghaerdydd i gyflwyno gwasanaethau Menter Caerdydd a manteision y Gymraeg i holl rieni'r plant sydd yn dechrau mewn dosbarth derbyn ym mis Medi 2019. | Cadw cofnod o 50% o'r ysgolion yr ymwelwyd â hwy yn 2019 (50% yn 2020) | Mehefin – Medi 2019 | Wedi ymweld gyda 11/17 ysgol yn ystod tymor yr haf 2019, ac yna yn parhau i ymgysylltu gyda'r ysgolion wrth hyrywddo nid yn unig cynigion Menter Caerdydd (tymor ysgol a gwyliau ysgol) ond hefyd arlwy holl bartneriaid y Fforwm.<br>**Menter Caerdydd** |
| | | Datblygu sesiynau cynhwysfawr wyneb yn wyneb ledled Caerdydd ar gyfer teuluoedd er mwyn crynhoi manteision dwyieithrwydd yn ogystal â chynnig gwybodaeth a deunyddiau cryno ar feithrinfeydd ac ysgolion Cymraeg. | 4 sesiwn y flwyddyn.<br><br>Coladu (neu gynhyrchu) 4 fideo byr ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol bob blwyddyn (cyfanswm o 16) yn mynd i'r afael â'r pwnc ar adegau gwneud dewisiadau allweddol. Fideos ar gael ar-lein ac wedi eu hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol. (Addysg/Caerdydd Ddwyieithog) | O Fis Medi 2019 - 2022 | Cytunwyd yn y cyfarfod Fforwm Addysg Gymraeg ym mis Medi 2019 i sefydlu is-grŵp marchnata, i fod yn gyfrifol am yr amcan hwn.<br><br>Mae cyfarfod wedi ei drefnu ym mis Rhagfyr 2020 er mwyn adolygu'r amcanion ac i gymeradwyo amserlen.<br>**Cyngor Caerdydd**<br><br>Mae Mudiad Meithrin wedi cynnal sesiynau Ti a Fi . Mae'r swyddog Ti a Fi yn cynnig gwybodaeth am fanteision dwyieithrwydd ac yn ateb cwestiynau ac unrhyw ofidiau sydd gan rieni di-Gymraeg am anfon eu plant i addysg Gymraeg<br>**Mudiad Meithrin** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Hyrwyddo Radio Platform (gorsaf radio’r Ganolfan sy’n cael ei redeg gan bobl ifanc) Cwrs 6 wythnos gyda chymhwyster AGORED i bobl ifanc 14-25 oed. Ffrwd Cymraeg a Saesneg ar gael. | Ebrill i Mawrth 2019/20<br>- 2 x ffrwd Gymraeg ar gyfer cwrs 6 wythnos gyda chyfanswm o 20-30 o bobl ifanc 14-25 oed (gan gynnwys Ysgol Plasmawr).<br><br>2020/21 a 2021/22<br>- 3 x ffrwd Gymraeg ar gyfer 30-45 o bobl ifanc 14-25 oed (yn Ne Ddwyrain Cymru)<br><br>Ar ben hynny, yn 2019/20 lleiafswm o 3 gweithdy allgymorth y flwyddyn, gan gynyddu i chwe gweithdy bob blwyddyn yn 2020/21 a 2021/22 | Bob blwyddyn 2019-2022 | 44 o raglenni Cymraeg wedi eu darlledu ar Radio Platfform rhwng Hydref 2019 a Gorffennaf 2020 gan gynnig cyfle i bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau darlledu trwy’r Gymraeg. Mae rhaglen radio newydd Cymraeg yn cael ei ddatblygu a neilltuir pob prynhawn Sadwrn i gerddoriaeth Cymraeg.<br>**Canolfan Mileniwm Cymru** |
| | | Cynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc yng Nghaerdydd i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg trwy gyfrwng Eisteddfodau / | 4500 o blant a phobl ifanc wedi cofrestru | Ebrill 2019 i Mawrth 2020 | 10 twrnamaint chwaraeon a 14 Eisteddfod wedi eu trefnu i gynnig gweithgareddau i plant o bob oedran.<br><br>4,700 o blant a phobl ifanc yn aelodau o’r Urdd yn y rhanbarth. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | gwersylloedd / Chwaraeon a chyfleoedd yn y gymuned. | | | Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mae Caerdydd ym mis Mehefin gyda thros 90,000 yn mynychu a 15,000 yn cystadlu.<br><br>Dros 3,000 o blant a phobl ifanc Caerdydd wedi mynychu gwersylloedd yr Urdd.<br><br>Dros 200 o blant yn mynychu gweithgareddau wythnosol yr Urdd yng Nghaerdydd ( adrannau / uwch adrannau / aelwydydd).<br>**Yr Urdd** |
| | | Cynnig sesiynau blasu Cymraeg i Oedolion i gyrsiau ar gyfer rhai sydd am wella/hyfedredd. | 1000 o ddysgwyr | Medi 2019 – Awst 2020 | Yn ystod y cyfnod hwn, trefnwyd amryw o gyrsiau prif-ffrwd, cyrsiau gweithle a chwrs yr haf gan **Prifysgol Caerdydd** |
| | | Arwain ar ddatblygu'r Fforwm Ieuenctid Caerdydd cyfrwng Cymraeg cyntaf i bobl ifanc 16+ yn y ddinas. | Cynnal 4 digwyddiad blynyddol ac adrodd yn ôl i Fforwm Caerdydd Ddwyieithog | Mehefin 2019 | Menter Caerdydd yn parhau i gefnodi Fforwm Ieuenctid yr Urdd sydd eisoes yn bodoli er mwyn deall pa fath o ddarpariaeth hoffai pobl ifanc y ddinas ei weld a chael cyfle i rannu eu barn am beth sy'n bwysig iddyn nhw. Cynnal gig i bobl ifanc Caerdydd.<br>**Urdd & Menter Caerdydd** |
| **1.4** | **Cynnig cyfleoedd i deuluoedd ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd.** | Cynllunio a datblygu projectau penodol yn targedu teuluoedd iaith gymysg o bob oed a mapio'r ddarpariaeth bresennol, nodi partneriaid newydd a chynnal 3 digwyddiad yn ystod y flwyddyn. | Cynnal 3 digwyddiad yn ystod 2019-20 | Erbyn Mawrth 2020 | Trafodaethau wedi dechrau gyda Amgueddfa Sain Ffagan am ddigwyddiad i'r teulu yn ystod Pasg/Haf 2020<br><br>Cynnal Miri Haf 2019 gyda CiB<br><br>Cynnal Miri 'Dolig gyda CiB – 19-12-19<br><br>**Menter Caerdydd** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cynyddu nifer y sesiynau darllen yn uchel neu weithgareddau Cymraeg eraill i rieni a phlant yn holl lyfrgelloedd a hybiau Caerdydd. | Cynnydd o 25% erbyn 2022. | O fis Medi 2018 a phob blwyddyn wedi hynny | 257 digwyddiad wedi eu cynnal yn 2019/20. Canslwyd 38 digwyddiad pellach o ganlyniad i'r argyfwng Covid 19 a'r cyfnod cloi.<br><br>Mi fyddai 295 disgwyddiad wedi cynrychioli cynnydd o 4.6% i gymharu â 2018/19 (282 i 295).<br>**Cyngor Caerdydd** |
| | | Datblygu a hyrwyddo calendr o ddigwyddiadau a gweithgareddau i deuluoedd fel y gall plant a rhieni ddysgu Cymraeg gyda'i gilydd. | Un digwyddiad fesul tymor | Medi 2019 – Awst 2020 | Trefnwyd penwythnos i deuluoedd yn Llangrannog gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.<br>**Prifysgol Caerdydd** |
| | | Datblygu Rhwydwaith i ddefnyddio sianeli cyfathrebu ysgolion gyda phartneriaid i hysbysebu perfformiadau Cymraeg yn y ddinas (i Oedolion, plant a theuluoedd). | Sefydlu Memorandwm o Ddealltwriaeth gyda phartneriaid<br><br>Negeseuon i fynd allan | Medi 2019 | Memorandwm o Ddealltwriaeth wedi ei lunio a'i rannu â'r Urdd a'r Fenter Iaith. Gohiriwyd ei gytuno nes mis Chwefror o ganlyniad i ail-strwythuro o fewn yr Urdd a gohiriwyd hyn eto o ganlyniad i'r cyfnod cloi. Bwriedir ei rannu yn anffurfiol o fewn y sector addysg am adborth ac i'w ystyried yng nghyd-destun yr adolygiad o'r Siarter Iaith.<br><br>Gwaith ymchwil ar farchnata yr iaith Gymraeg wedi ei gomisiynu ac argymhellion adroddiad Elen ap Robert i'w cynnwys o fewn cynllun gweithredu i gefnogi'r gwaith uchod.<br>**Cyngor Celfyddydau Cymru** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Datblygu Rhwydwaith 'Noson Mas' yng Nghaerdydd – hyrwyddwyr a lleoliadau cymunedol, i ddenu mwy o berfformiadau Cymraeg i Gaerdydd a hyrwyddo digwyddiadau Cymraeg. | Cysylltu â darparwyr celfyddydol i nodi yr hyn y gellir ei gyflenwi<br><br>Partneriaid i gytuno ar gynllun cyflenwi mewn ymgynghoriad ag ysgolion cynradd Cymraeg. | Medi 2019 | Perfformiadau Noson Mas wedi eu gohirio o ganlyniad i'r cyfnod cloi. Comisiynwyd adroddiad ar farchnata yr iaith Gymraeg a fydd yn cynnig argymhellion wrth sefydlu'r rhwydwaith yma.<br>**Cyngor Celfyddydau Cymru** |
| | | Cynnal digwyddiadau fesul tymor i gynyddu'r cyfleoedd cymdeithasol a chodi ymwybyddiaeth am y Gymraeg i rieni a phlant bach ledled y ddinas. | 3 digwyddiad Miri Meithrin i gael eu cynnal i blant cyn oed ysgol gan Fenter Caerdydd a Cymraeg i Blant | Ebrill 2019 – Ebrill 2020 | 3 digwyddiad wedi eu cynnal yn 2019-20<br>**Menter Caerdydd a'r Mudiad Meithrin** |
| **1.5** | **Cynyddu darpariaeth gweithgareddau Cymraeg all gwricwlaidd a chyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r** | Cydlynu a gweinyddu rhaglen lawn o ofal gwyliau, gweithgareddau chwarae a hamdden i blant 4-11 oed gan gynnwys gofal dydd, sesiynau chwarae agored a | 10 wythnos o ofal gwyliau yn denu 400 o blant yr wythnos<br>7 wythnos o chwarae agored mewn 6 ardal, yn denu 500 o blant yr wythnos | O Ebrill 2019 ac yn flynyddol wedi hynny. | 10 wythnos o gynlluniau Gofal gydol dydd wedi eu cynnal yn 2019/20 â 43 o blant yn mynychu bod dydd ar gyfartaledd.<br><br>689 o blant yn mynychu digwyddiadau Bwrlwm (cynllun chwarae agored am ddim i blant oed cynradd) yn wythnosol ar gyfartaledd yn 2019/20 sy'n gynnydd ar 2018/19. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Gymraeg y tu allan i gatiau'r ysgol.** | gweithgareddau hamdden yn ogystal ag amrywiol weithgareddau gwyliau i bobl ifanc 11-16 oed. | Lleiafswm o 8 gweithgaredd hamdden y tymor yn ystod gwyliau ysgol, yn denu 200 o blant/pobl ifanc i gofrestru bob blwyddyn | | Cydweithio â nifer o fudiadau ac unigolion e.e. Urdd Gobaith Cymru, Re-Create, Mewn Cymeriad a Green City Events i gynnal amserlen o weithdai amrywiol a hwyliog.<br><br>Dros 85% o'r plant sy'n mynychu yn dod o deuluoedd lle nad Cymraeg yw iaith yr aelwyd.<br><br>15 o weithgareddau gwyliau (gan gynnwys, gweithdai swshi, origami, sgiliau syrcas, ioga) wedi eu trefnu ar gyfer plant 4-11 mlwydd oed, gan gynnig cyfle i dros 125 o blant ddefnyddio'r Gymraeg o fewn sefyllfaoedd cymdeithasol yn ysgol gwyliau ysgol.<br>**Menter Caerdydd** |
| | | Datblygu rhaglen o weithdai a gweithgareddau i blant a phobl ifanc. | Cydlynu bwydlen o gyfleoedd ac anelu i gynnig 15 fesul tymor, gan ddenu o leiaf 200 o blant a phobl ifanc | O Ebrill 2019 ac yn flynyddol wedi hynny. | Cynnal 4 clwb rheolaidd ar gyfer plant 0-4 mlwydd oed gan gynnwys Deffro'r Synhwyrau, Cerddorion Bach Caerdydd a dawnswyr Bach. 47 o blant (ar gyfartaledd) yn mynychu'n wythnosol.<br><br>6 o glybiau rheolaidd ar gyfer plant 4-11 mlwydd oed gan gynnwys clybiau dawns, drama, cyfarwyddo a ioga. 18 o blant (ar gyfartaledd) yn mynychu pob clwb.<br>**Menter Caerdydd** |
| | | Defnyddio Dydd Miwsig Cymru fel modd o ddenu pobl ifanc i gymryd rhan yn y Sîn Gerddoriaeth Gymraeg yn gymdeithasol ac fel artistiaid. | Creu Cynllun Gweithredu newydd ar gyfer Dydd Miwsig Cymru | Erbyn Hydref 2019 | Cynllun gweithredu newydd wedi ei greu i hybu Dydd Miwsig Cymru ac i gefogi pobl ifanc ac artistiaid Cymreig a Chymraeg. Yn anffodus mae oedi wrth weithredu'r cynllun o ganlyniad i'r cynfod clo a'r nifer o leoliadau sydd wedi cau o ganlyniad. Disgwylir ail-gydio gyda'r gwaith yn 2020/21.<br>**Llywodraeth Cymru** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyflogi Swyddog Ieuenctid i weithio gyda phobl ifanc yn Ysgolion Uwchradd Caerdydd i ddatblygu cyfleoedd newydd i bobl ifanc ddefnyddio'u Cymraeg. | Swyddog newydd yn ei swydd erbyn Medi 2019 | Medi 2019 – Medi 2020 | Swyddog Ieuenctid yn gweithio ar draws Caerdydd gydag ysgolion uwchradd Cymraeg ac Ail Iaith Gwaith yn cynnwys gweithdai, clybiau wythnosol, fforymau ieuenctid, trefnu gweithgareddau rheolaidd i bobl ifanc Caerdydd a phrosiectau dyngarol. Yn mis Mawrth gyda'r cyfnod cloi, datblygwyd prosiectau ieuenctid digidol i bobl ifanc **Yr Urdd** |
| | | Sefydlu 'Criw Awn i Weld' ar gyfer plant i fynychu perfformiadau mewn grwpiau gyda hebryngwyr gan gynnwys gwerth ychwanegol e.e. cwrdd â'r cast, trafod y sioe, ysgrifennu adolygiad byr. Mynediad gefn llwyfan – oll trwy gyfrwng y Gymraeg. | Cytuno a datblygu cynllun gyda phartneriaid<br><br>Cynllun peilot gydag ysgol gynradd<br><br>Cyflwyno i ysgolion cynradd Cymraeg eraill | Ionawr 2020 | Dim cynnydd i'w adrodd gan fod y canolfannau wedi cau a staff ar furlough dros y cyfnod cloi. **Cyngor Celfyddydau Cymru** |
| | | Cynyddu darpariaeth celfyddydol Cymraeg i blant yng Nghaerdydd trwy gyfrwng cyfres o gyrsiau a digwyddiadau, bwydo i gystadlaethau Celf a Chrefft yr Urdd. | Cysylltu a darparwyr celf gan gynnwys lleoliadau ac Asiantau Dysgu Creadigol i nodi yr hyn y gellir ei gyflenwi<br><br>Partneriaid i gytuno ar gynllun cyflenwi mewn | Medi 2019 | Gwaith ymchwil ar y gweill yn dilyn argymhellion adroddiad Elen ap Robert ar ddarpariaeth celfyddydol Cymraeg ar draws Cymru.<br><br>Gwersi drama Cymraeg wedi eu cynnig i blant 7-11 mlwydd oed yng Ngweithdy Actorion y Chapter ond nawr ar saib o ganlyniad i'r cyfnod cloi. **Cyngor Celfyddydau Cymru** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ymgynghoriad ag ysgolion cynradd Cymraeg. | | |
| | | Datblygu sîn Gymraeg (theatr neu Roc) rhwng sawl ysgol gan ddefnyddio cynllun 'Noson Allan yr Ifanc' a grant 'Ewch i Weld' | Trefnu 1 digwyddiad fel peilot<br><br>Gwerthuso a rhannu canfyddiadau gydag ysgolion eraill<br><br>Sefydlu rhwydwaith cymuned 'Noson Allan' – trefnwyr a lleoliadau | Rhagfyr 2019 | Dim cynnydd i'w adrodd gan bod y cynllun Noson Allan ar saib.<br>**Cyngor Celfyddydau Cymru** |
| | | Sefydlu is-grŵp i edrych ar ddarpariaeth gelfyddydol yn y ddinas. | Is-grŵp i adrodd yn ôl i Fforwm Caerdydd Ddwyieithog bob chwarter | Medi 2019 | Cyfarfod yr is-grwp wedi ei ohirio i Hydref 2020 o ganlyniad i'r cyfnod cloi.<br>**Cyngor Celfyddydau Cymru** |
| **1.6** | **Datblygu cyfleoedd i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau Saesneg i gysylltu mewn modd** | Casglu data dilyniant o ddarpariaeth y Blynyddoedd Cynnar (grwpiau meithrin) ar gyfer Ysgolion fel y gall Llywodraeth Cymru | Casglu data pontio o Gylchoedd Meithrin i Ysgolion yn flynyddol.<br>Mae data ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pob Awdurdod | Ebrill 2019-20 | Parhau i gasglu data dilyniant rhwng Cylchoedd Meithrin ag Ysgolion Cynradd Cymraeg Caerdydd.<br><br>Cyfarfodydd wedi eu cynnal i drafod darpariaeth gofal cofleidiol ar draws amryw o leoliadau yng Nghaerdydd a trwy gefnogaeth grantiau cyfalaf Gofal Plant y 30 Awr ar safleoedd ysgolion |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **cadarnhaol â'r Gymraeg** | eu rhannu gyda'r sir ar gyfer y CSGA. Annog pontio rhwng y meithrinfeydd a'r ysgolion sy'n bwydo iddynt. | Lleol o fis Hydref ymlaen bob blwyddyn. | | cynradd.<br>**Mudiad Meithrin** |
| | | Cynnig cymhwyster Iaith Gwaith / Work Welsh mewn sawl maes ar draws y coleg. | 1200 o ddysgwyr | Erbyn Ebrill 2020 | Darparwyd y cymhwyster Iaith ar Waith i sawl maes dysgu gan gynnwys Iechyd a Gofal, Gofal Plant, Gwasanaethau Cyhoeddus a chwaraeon. Yn ogystal darparwyd y cymhwyster am y tro gyntaf i staff sydd yn dysgu Cymraeg trwy ein cwrs Cymraeg Gwaith.<br>**Coleg Caerdydd a'r Fro** |
| | | Cynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc yng Nghaerdydd mewn lleoliadau Saesneg i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg trwy gyfrwng Eisteddfodau / gwersylloedd / Chwaraeon a chyfleoedd yn y gymuned. | 4,500 o blant a phobl ifanc wedi eu cofrestru erbyn diwedd Mawrth 2020 | Ebrill 2019 ymlaen<br>Ionawr – Mawrth 2020 - Eisteddfodau<br>Ebrill 2019 – Mawrth 2020 Gwersylloedd yr Urdd<br>Ebrill 2019 – Mawrth 2020 Gweithgared dau Chwaraeon | 10 twrnamaint chwaraeon a 14 Eisteddfod wedi eu trefnu i gynnig gweithgareddau i plant o bob oedran.<br><br>4,700 o blant a phobl ifanc yn aelodau o'r Urdd yn y rhanbarth.<br><br>Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mae Caerdydd ym mis Mehefin gyda thros 90,000 yn mynychu a 15,000 yn cystadlu.<br><br>Dros 3,000 o blant a phobl ifanc Caerdydd wedi mynychu gwersylloedd yr Urdd.<br><br>Dros 200 o blant yn mynychu gweithgareddau wythnosol yr Urdd yng Nghaerdydd ( adrannau / uwch adrannau / aelwydydd).<br>**Yr Urdd** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cydweithio gydag ysgolion uwchradd Caerdydd trwy gyfrwng y project Cymraeg Bob Dydd i gynnig cyfleoedd cadarnhaol i bobl ifanc mewn lleoliadau Saesneg i ddefnyddio'r Gymraeg. | Cynnig 40 o weithgareddau bob blwyddyn i 40 o ysgolion gan gynnig cyfle i dros 1000 o blant a phobl ifanc i ddefnyddio'u Cymraeg | Ebrill 2019 ymlaen | Gweithgareddau wedi cynnal â nifer o ysgolion yng Nghaerdydd gan gynnwys:<br><br>• Clybiau Cymraeg;<br>• Gweithgareddau gwersylloedd yr Urdd;<br>• Cyfleodd gwirfoddoli yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd;<br>• Cynllun gwobrau Cymraeg i'r dysgwyr mwyaf addawol o fewn yr ardal;<br>• Clybiau ar ôl yr ysgol;<br>• Hyfforddiant a cymwysterau awyr agored; a<br>• Sesiynau ymarfer llafar tuag at arholiadau.<br><br>Gig Cymraeg wedi ei drefnu ar y cyd gan staff maes yr Urdd a Clwb Ifor Bach.<br>**Yr Urdd** |
| **1.7** | **Gwella cyfraddau cynnydd rhwng y blynyddoedd cynnar ac addysg ôl-16** | Gweithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd a lleoliadau addysg uwch i sicrhau dilyniant eglur ar gyfer addysg Gymraeg. | Gydol y flwyddyn Mynychu nosweithiau/digwyddiadau dewisiadau yn y tair ysgol uwchradd Gymraeg, yn ogystal â digwyddiadau sgiliau ymarferol gydag ysgolion cynradd ac uwchradd. | Erbyn Mai 2020 | Cyflwyniadau am bwysigrwydd y Gymraeg yn y maes gwaith wedi eu cynnig gan swyddogion CCAF yn mhob digwyddiad dewisiadau a'r ddarpariaeth wedi parhau yn rhithiol yn y cyfnod clo.<br>**Coleg Caerdydd a'r Fro** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Hyrwyddo Uned Drochi'r Gymraeg Cyngor Caerdydd (cynradd ac uwchradd) sy'n cynnig dysgu Cymraeg dwys i alluogi plant i ennill digon o rugldeer i drosglwyddo i addysg mewn ysgol Gymraeg. | Cyflwyniad blynyddol i rieni newydd 3-7 oed Hyrwyddo cyson ar y cyfryngau cymdeithasol | Erbyn Medi 2019 | Mae'r Cyngor yn hyrwyddo'r Uned Drochi ar ei wefan, yn y llyfryn Derbyniadau i Ysgolion ac o fewn gohebiaeth i rieni yn ystod y broses derbyniadau ysgol. Mae'r uned drochi wedi gweithredu i'w gapasiti llawn yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r Cyngor, mewn partneriaeth â Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd, yn bwriadu sefydlu is-grŵp yn Haf 2020 i adnabod a blaenoriaethu cyfleoedd a mesurau i hyrwyddo'r Uned Drochi Gymraeg yn bellach.<br>**Cyngor Caerdydd** |
| | | Rhoi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017 – 2020 ar waith. | Cynyddu nifer y plant saith oed sy'n derbyn addysg Gymraeg 1.2% , o 15.2% yn Ionawr 2016 i 16.4% | Erbyn 2020 | Canran o blant saith mlwydd oed sy'n cael eu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn 2019/20 yw 16.8% (691 o 4,103)<br>**Cyngor Caerdydd** |
| | | | Cynyddu nifer y dysgwyr ym mlwyddyn naw sy'n cael eu hasesu yn Gymraeg (Mamiaith) 1.5% i 14.4% | Erbyn 2020 | Canran o blant Blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn Gymraeg (Mamiaith) yn 2019/20 yw 14.9% (544 of 3,658)<br>**Cardiff Council** |
| | | | Cynyddu canran y dysgwyr 17 oed sy'n astudio 2 neu fwy o bynciau drwy gyfrwng y | Erbyn 2020 | Canran dysgwyr 17 oed sy'n astudio 2 neu fwy o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yn 2019/20 yw 96% (313 o 325).<br>**Cyngor Caerdydd** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gymraeg 4% i 95% | | |
| | | Cynyddu ymwybyddiaeth ac annog pobl ifanc i ystyried y Gymraeg fel sgil wrth edrych am waith a hyfforddiant trwy gyfrwng cyfres o gyflwyniadau 1:1 gyda Swyddog y Gymraeg mewn Busnes | Ymweld â'r 3 ysgol uwchradd Gymraeg erbyn Hydref 2019 | Erbyn diwedd Hydref 2019 | Cynhaliwyd 'Gyrfa Gymraeg' Ffair yrfaoedd gyntaf Gymraeg Caerdydd ar 2 Mawrth 2020 yn Neuadd y Ddinas gyda 300 o ddisgyblion o'r tair ysgol uwchradd Gymraeg yn bresennol i glywed cyflwyniadau gan brif gyflogwyr y ddinas a phanel o entreprenueriaid llwyddiannus yn rhannu eu profiadau, a manteision dwyieithrwydd o ran cyflogadwyedd.<br>**Cyngor Caerdydd**<br><br>Staff Menter Caerdydd wedi ymweld â dau ysgol Uwchradd i hyrwyddo budd y Gymraeg a chael syniadau gan y myfyrwyr o be hoffen nhw ei weld fel cynigion cymdeithasol yn y Gymraeg yn y ddinas.<br><br>Staff menter Caerdydd yn cefnogi diwrnod Rheoli ac Arweinyddiaeth y dair ysgol gyda Phrifysgol Caerdydd – 16/12/19<br><br>Gwaith hyrwyddo y Gymraeg fel sgil wedi dechrau â myfyrwyr Prifysgol Met Caerdydd – cyflwyno i grwpiau o fyfyrwyr a thrafod pwysicrwydd y Gymraeg a'i gweld fel sgil.<br>**Menter Caerdydd** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **1.8** | **Sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei gweld fel sgil gwerthfawr ar gyfer hyfforddiant a chyflogaeth.** | Darparu gwybodaeth gyfredol a rheolaidd i bobl ifanc parthed cyfleoedd gwaith a phrentisiaethau, sy'n galw am sgiliau dwyieithog. | Datblygu strategaeth ar y cyd | Erbyn Ebrill 2020 | Prifysgol De Cymru (PDC) i redeg cynllun peilot sy'n cynnig modiwlau cyflogadwyedd drwy gyfrwng y Gymraeg i fyfyrwyr busnes a'r diwydiannau creadigol.<br>**Coleg Caerdydd a'r Fro** |
| | | Cynyddu ymwybyddiaeth cyflogwyr o'r sgiliau Cymraeg sydd gan ddysgwyr pan fyddant yn gadael y coleg a'r gwerth ychwanegol y mae'r sgiliau hyn yn ei rhoi i gyflogwyr. | Partneriaid CDd i drefnu / mynychu ffeiriau swyddi ac i adrodd yn ôl yn flynyddol sawl ffair a drefnwyd neu a fynychwyd | O fis Medi 2019 | Trefnwyd Gyrfa Gymraeg, ffair yrfaoedd gyntaf Gymraeg Caerdydd ar 2 Mawrth 2020, ar y cyd â Fforwm Caerdydd Ddwyieithog a chynrychiolaeth gref gan y partneriaid oll ar y diwrnod.<br>**Cyngor Caerdydd**<br><br>Ymgyrch #SiaradDysguByw CCAF yn pwysleisio hawliau myfyrwyr yn y Gymraeg/dwyieithog yn y Coleg.<br>**Coleg Caerdydd a'r Fro** |
| | | Cynnig cyfleoedd i bobl ifanc Caerdydd i wirfoddoli gyda'r Urdd a sicrhau swyddi Cymraeg. | 50 gwirfoddolwr | Ebrill 2019 i Mawrth 2020 | Cyfleoedd gwirfoddoli a hyfforddiant a achrediadau wedi cynnig i pobl ifanc yn Nghaerdydd<br>**Yr Urdd** |
| | | Parhau i weithio gyda a hyrwyddo strategaeth Cymraeg Gwaith y Ganolfan Genedlaethol yn ogystal â chynnig gwersi Ymwybyddiaeth iaith i staff mewn | 6 o gyrsiau dwys Cymraeg Gwaith – dibynnol ar ennill tendrau | Medi 2019 – Awst 2020 | Dyfarnwyd 7 tendr i ddysgu 7 cwrs dwys Cymraeg Gwaith i sefydliadau ar draws Caerdydd. Er ein bod yn cynnig sesiynau ymwybyddiaeth iaith ni ddaeth unrhyw gais amdanynt yn ystod y cyfnod hwn.<br>**Prifysgol Caerdydd** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | sefydliadau amrywiol yng Nghaerdydd. | | | |
| | | Rhannu manteision siarad dwy iaith gyda myfyrwyr Bydwreicaeth ac Ymwelwyr Iechyd ym Mhrifysgol Caerdydd a gyda myfyrwyr gofal plant yng Ngholeg Addysg Bellach Caerdydd a'r Fro a disgyblion yr Ysgolion Uwchradd Cymraeg | Cyflwyniad i fyfyrwyr bydwreica<br><br>Cyflwyniad i fyfyrwyr Ymweld Iechyd<br><br>Cyflwyniad i fyfyrwyr Gofal Plant yng Nghaerdydd a'r Fro<br><br>Bydd staff Mudiad Meithrin yn mynychu 'Diwrnod Pontio' yn Ysgol Plasmawr | Gorffennaf 2019<br><br>Ionawr 2020<br><br>Hydref 2019<br><br>Gorffennaf 2019 | Ni drefnwyd sesiynau yn ystod y cyfnod penodol yma.<br>**Mudiad Meithrin** |

## Adran 2: Cymuned a Seilwaith

| CYF | BLAENORIAETH | AMCANION | TARGED | AMSERLEN | DIWEDDARIAD |
|---|---|---|---|---|---|
| **2.1** | **Hyrwyddo'r Gymraeg fel pwynt gwerthu unigryw i Gaerdydd fel prifddinas a dinas graidd, a hyrwyddo'r brand 'Caerdydd Ddwyieithog'.** | Trefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau fel noson agored a digwyddiadau busnes yn ystod y flwyddyn i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd a gweledigaeth Caerdydd Ddwyieithog. | 4 – 6 digwyddiad y flwyddyn | O fis Gorffennaf 2019 | Hyrwyddwyd project *Siarad, Dysgu, Byw* ar ddiwrnodau canlyniadau, yr wythnos cyflwyno ac yn ystod ffeiriau glas. Mae 5 cwrs galwedigaethol wedi gofyn am wersi Cymraeg ers y digwyddiadau, yn ogystal â 45 o staff academaidd.<br><br>Cynhaliwyd 4 noson agored ar gampws y Coleg ac un rhithiol ar ddiwedd 2019/20.<br>**Coleg Caerdydd a'r Fro** |
| | | Sicrhau fod gwybodaeth farchnata economaidd, busnes a thwristiaeth yn cynnwys cyfeiriad at Gaerdydd fel dinas ddwyieithog. | Gwiriadau ar hap o ddeunyddiau marchnata unwaith y flwyddyn | Erbyn Ebrill 2020 | Mae holl adnoddau marchnata'r Cyngor yn cael eu creu yn ddwyieithog a ceir fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r wefan Croeso Caerdydd. Mae'r adnoddau marchnata hefyd yn cynnwys logo Caerdydd Ddwyieithog i hysbysu'r cyhoedd a phartneriaid bod Caerdydd yn ddinas ddwyieithog.<br>**Cyngor Caerdydd** |
| | | Annog busnesau preifat sy'n cefnogi'r Gymraeg i ddangos neu arddangos brand Caerdydd ddwyieithog yn eu siopau a'u | Busnesau a sefydliadau perthnasol i ddefnyddio logo Caerdydd Ddwyieithog | O fis Ebrill 2019 | Logo a brand C.Dd yn rhan o'r pecyn byd busnes ar gyfer Eisteddfod yr Urdd a'r Genedlaethol.<br><br>Y Canllaw Cynllunio Atodol blaenau siop ac arwyddion a gafodd cymeradwyaeth y Cabinet a'r Cyngor llawn ym mis Mehefin |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | busnesau e.e. tacsis, bysiau, gwestyau ayb | | | 2019 yn cynnwys anogaeth iddynt fod yn Cymraeg.<br><br>Gwybodaeth ar y wefan drwyddedau a chynllunio yn cynnig manylion a chymorth i Gymreigio busnesau.<br>**Cyngor Caerdydd** |
| | | Gweithredu Polisi Iaith Gleision Caerdydd | Arwyddion Dwyieithog ar Barc yr Arfau.<br><br>Sicrhau fod staff achlysurol mewn gemau cartref yn gallu cyfarch ym Gymraeg<br><br>Cryfhau'r berthynas â sefydliadau Cymraeg fel Tafwyl a'r cyfryngau Cymraeg.<br><br>Parhau i gynyddu'r cynnwys Cymraeg ar wefan y Gleision ac ar y llwyfannau cymdeithasol<br><br>Cyflwyno'r Gymraeg ar ddeunyddiau | Ebrill 2019 – Mawrth 2020 | Podlediad Cymraeg cyntaf Gleision Caerdydd wedi ei ddarlledu fel rhan o'i ymrwymiad i gynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn y fusnes.<br><br>Maent hefyd wedi cynyddu'r defnydd o Gymraeg yn ei cynnwys marchnata ac ar-lein, cyflwyno arwyddion dwyieithog ar draws Parc yr Arfau, a chydweithio a nifer o sefydliadau a digwyddiadau Cymraeg gan gynnwys Tafwyl.<br>**Gleision Caerdydd** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | marchnata fel dillad<br><br>Gwella'r profiad ar ddiwrnod gêm gyda chyhoeddiadau cyson yn Gymraeg a cherddoriaeth o Gymru dros y PA<br><br>Hyrwyddo athletwyr sy'n medru'r Gymraeg yn y sgwad ar y cyfryngau Cymraeg | | |
| **2.2** | **Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob digwyddiad mawr, proffil uchel a gynhelir yng Nghaerdydd, cefnogi digwyddiadau cymunedol Cymraeg sydd eisoes yn bodoli a rhannu arfer da.** | Gweinyddu a chynnal rhwydwaith electronig yn hyrwyddo digwyddiadau Cymraeg a dwyieithog ledled y ddinas. | Cyrraedd lleiafswm o 7000 o bobl ar draws y ddinas er mwyn hyrwyddo ein gwasanaethau | O fis Medi 2019 ac yn barhaus wedi hynny | Mae'r gwasanaeth yn parhau i fod yn un o brif ffynonellau hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg a dwyieithog yn y ddinas gyda dros 7,000 o gyfeiriadau e-bost yn derbyn gwybodaeth am beth sydd 'mlaen yng Nghaerdydd.<br><br>Mae'r gwaith o ddenu mwy i gofrestru yn parhau gydol y flwyddyn e.e. sgyrsiau gyda rhieni dosbarth derbyn/meithrin, defnyddwyr newydd ein gwasanaethau, rhannu taflenni mewn digwyddiadau ac ati.<br>**Menter Caerdydd** |
| | | Trefnu digwyddiad Fforwm Caerdydd Ddwyieithog i arddangos gwaith | Cynnal digwyddiad arddangos | Tachwedd 2019 | Yn dilyn trafodaeth ynghylch blaenoriaethau ac angen, trefnwyd 'Gyraf Gymraeg' Ffair swyddi gyntaf Gymraeg Caerdydd ar y cyd (2 Mawrth 2020) gan arddangos gwaith y |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | y Fforwm ac i ddathlu Blwyddyn Ryngwladol Ieithoedd Brodorol 2019. | | | partneriaid i gyd yn ogystal â rhoi gwerth ar y Gymraeg fel sgil ar gyfer y byd gwaith.<br>Mae cynlluniau ar y gweill i sicrhau y daw Gyrfa Gymraeg yn ddigwyddiad blynyddol yn y calendr ysgolion.<br><br>Lansiwyd hefyd cyfrif Trydar Fforwm Caerdydd Ddwyieithog @FforwmCdd er mwyn arddangos gwaith y fforwm yn ehangach.<br>**Fforwm Caerdydd Ddwyieithog** |
| | | Noddi a bod â phresenoldeb cryf yn Tafwyl (Gŵyl gymunedol Gymraeg flynyddol) | Pob partner i adrodd nôl i Fforwm Caerdydd Ddwyieithog | Mehefin 2019 | Dros 37,000 o bobl yn mwynhau Tafwyl eleni yng Nghastell Caerdydd gyda noson ychwanegol wedi ei chyflwyno am y tro cyntaf (nos Wener). Partneriaeth gref rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yw Tafwyl sy'n galluogi Menter Caerdydd drwy grantiau a nawdd a chefnogaeth ymarferol (gan nifer o bartneriaid y fforwm) i greu digwyddiad hyderus, am ddim, yng nghanol y brifddinas.<br>**Menter Caerdydd** |
| | | Trefnu 10 Eisteddfod Cylch / digwyddiadau Dawns / Celf a Chrefft ar draws Caerdydd i dros 3500 o blant a phobl ifanc a chynnal 10 cystadleuaeth chwaraeon i dros 3,000 o blant trwy | 10 Eisteddfod Cylch â 3,500 o blant a phobl ifanc yn mynychu<br><br>10 digwyddiad chwaraeon a 3,000 o blant a phobl ifanc yn mynychu | O fis Ebrill 2019 yn flynyddol | 10 twrnamaint chwaraeon a 14 Eisteddfod wedi eu trefnu i gynnig gweithgareddau i plant o bob oedran.<br><br>4,700 o blant a phobl ifanc yn aelodau o'r Urdd yn y rhanbarth.<br><br>Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mae Caerdydd ym mis Mehefin gyda thros 90,000 yn mynychu a 15,000 yn cystadlu<br>**Yr Urdd** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | gyfrwng y Gymraeg. | | | |
| | | Ceisiadau Trwydded (digwyddiadau) i gynnwys amodau sy’n sicrhau arwyddion a chyhoeddiadau dwyieithog. | Gwiriadau ar hap blynyddol | O fis Medi 2019 | Amodau wedi eu cynnwys o fewn dogfennaeth atodol ceisiadau trwydded am ddigwyddiadau sydd yn gofyn am ddarpariaeth arwyddion a chyhoeddiadau dwyieithog.<br>**Cyngor Caerdydd** |
| | | Cynnig cymorth drwy fod â phresenoldeb mewn digwyddiadau – teilwra deunyddiau marchnata ‘ gwybodaeth am gyrsiau a sesiynau blasu byrion | Eisteddfod yr Urdd Tafwyl Digwyddiadau mewn ardaloedd penodol e.e. Carnifal Butetown | Haf 2019 | Partneriaid y Fforwm wedi ac yn mynychu digwyddiadau megis Eisteddfodau, Tafwyl Mela, Diwrnod Chwarae Cenedlaethol ayb.<br><br>Bwriedir creu rhestr lawn o ddigwyddiadau cymunedol i sicrhau fod un neu fwy o’r Fforwm yn hyrwyddo ein gwaith ymhob un.<br>**Fforwm Caerdydd Ddwyieithog** |
| **2.3** | **Sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn fwy gweladwy i adlewyrchu Caerdydd Ddwyieithog trwy fecanweithiau Cynllunio sy’n bod eisoes.** | Darparu sesiynau ymwybyddiaeth iaith, cyngor a chymorth ymarferol i fusnesau bach a chanolig er mwyn cyflwyno a defnyddio’r Gymraeg mewn busnes | Cynnal o leiaf 5 sesiwn yn ystod y flwyddyn | O fis Medi 2019 | Swyddog Byd Busnes yn cynnal sgyrsiau dyddiol gyda busnesau ar hyd a lled Caerdydd gan gynnal 6 sesiwn yn ystod y flwyddyn.<br>**Menter Caerdydd** |
| | | Hysbysiadau o benderfyniadau cynllunio ar gyfer ceisiadau | Canllawiau Blaen Siopau a Chanllawiau Cynllunio Atodol | O fis Medi 2019 | Canllawiau Blaen Siopau a Chanllawiau Cynllunio Atodol  y Cyngor wedi derbyn cymeradwyaeth ym mis Medi 2019.<br>**Cyngor Caerdydd** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | masnachol perthnasol i gynnwys argymhellion er mwyn sicrhau arwyddion dwyieithog. | i'w cymeradwyo gan y Cyngor (Mehefin 2019)<br><br>Paratoi canllaw 'arfer gorau' gydag enghreifftiau sy'n bod eisoes i fusnesau – Hydref 2019 | | |
| | | Mabwysiadu polisi enwi strydoedd newydd a fydd yn cadarnhau yr enwau strydoedd dwyieithog presennol a gyda'r nod o roi enw Cymraeg i bob stryd newydd gyda'r pwyslais ar enwau hanesyddol/treftadaeth yr ymchwiliwyd iddynt ar gyfer pob stryd newydd yng Nghaerdydd. | Cymeradwyaeth y cabinet i'r polisi enwi strydoedd | Gorffennaf 2019 | Y polisi wedi ei gymeradwyo gan y Cabinet ar 24 Hydref 2019. Bwriad i greu adnodd ar-lein sy'n cynnwys yr enwau a'r ymchwil a'r hanes tu ôl iddynt.<br>**Cyngor Caerdydd** |
| **2.4** | **Cyflwyno'r Gymraeg i gymunedau newydd a chymunedau sy'n** | Swyddog ysgolion i ymweld â phob ysgol uwchradd i sôn am addysg Gymraeg, dysgu | Cyflwyno cyflwyniad CCAF ar gyfleoedd gyrfa i bob ysgol uwchradd leol i | O fis Gorffennaf 2019 | Swyddogion CCAF wedi mynychu digwyddiadau nifer o ysgolion Cymraeg a Saesneg i hyrwyddo materion y Gymraeg o fewn meysydd dysgu ac i gyflwyno ymgyrch #SiaradDysgyByw y Coleg. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **dod i'r amlwg fel ffordd o gyfleu diwylliant Cymreig, a hyrwyddo dysgu Cymraeg ac addysg Gymraeg.** | Cymraeg ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol. | godi ymwybyddiaeth o fanteision dwyieithrwydd. | | **Coleg Caerdydd a'r Fro** |
| | | Cydlynu â'r trydydd sector i ddatblygu dosbarthiadau Cymraeg i gymunedau newydd ac arfaethedig, gan gynnwys ffoaduriaid a mudwyr, i nodi cyfleoedd pellach er mwyn i gymunedau newydd yn y ddinas i ddysgu Cymraeg. | 4 dosbarth blasu ar gael | Erbyn Ionawr 2020 | Apwyntiwyd Swyddog Dysgu Arloesol gan yn ystod y cyfnod hwn i gydlynu a dysgu amryw o gyrsiau a chyfleoedd dysgu anffurfiol ar hyd y ddinas ond yn benodol yn ardaloedd Sblot ac Adamsdown. Cynhaliwyd cyrsiau'n benodol i ffoaduriaid a cheiswyr lloches mewn partneriaeth â elusennau lleol (Oasis, Canolfan y Drindod, Cyngor Ffoaduriaid Cymru). Cynhaliwyd hefyd gyrsiau Cymraeg i'r Teulu o fewn y cymunedau hyn er mwyn hyrwyddo'r iaith ac addysg Gymraeg ymysg teuluoedd ifanc. Roedd pob cwrs yn rhad ac am ddim.<br>**Prifysgol Caerdydd** |
| | | Cwblhau y projectau presennol sy'n ymwneud â'r grant arloesi ar gyfer Canolfan Ddysgu Cymraeg (addysgu mewn cymunedau difreintiedig ac addysgu Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid) | Cyflwyno'r iaith i gymunedau newydd a chymunedau sy'n anos eu cyrraedd trwy ddosbarthiadau iaith ac addysgu anffurfiol. | Gorffennaf 2019 | Gweler uchod.<br>Cynhaliwyd y dosbarthiadau i ffoaduriaid a cheiswyr lloches am y drydedd flwyddyn yn olynol. Daeth y gwersi i ben ym mis Mawrth 2020 o ganlyniad i'r cyfnod clo.<br>**Prifysgol Caerdydd** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Sicrhau fod agwedd Gymraeg i weithgareddau ac allbwn project CAER: https://caerheritageproject.com | Dehongliad treftadaeth ddwyieithog gyda deunydd gwreiddiol am y Gymraeg yn yr ardal; gweithgareddau cyfrwng Cymraeg i ysgolion lleol 2019-22<br><br>https://www.cardiff.ac.uk/cy/news/view/1463026-1.65m-community-project-to-reveal-6,000-year-old-hidden-historic-site-in-cardiff | 2019-2022 | Y project wedi ei oedi am y tro o ganlyniad i'r cyfnod clo.<br>**Prifysgol Caerdydd** |
| | | Datblygu grwpiau meithrin Ti a Fi newydd trwy sefydlu cynlluniau Sefydlu a Symud mewn ardaloedd newydd. | Cylch Meithrin newydd yn Ysgol Hamadryad, Bae Caerdydd i gynnig gofal cofleidiol i ddisgyblion 3 oed sydd yn derbyn Addysg ran amser | O fis Medi 2019 | Cylch Meithrin newydd wedi ei agor ar safle Ysgol Gynradd Gymraeg Hamadryad.<br>**Mudiad Meithrin** |
| | | Hyrwyddo ein gwaith mewn cymunedau newydd ar draws y ddinas | Cynnal cyfres o grwpiau Cymraeg i blant a rhieni newydd yn Butetown a | Ebrill 2019 – Mawrth 2020 | Grwpiau Cymraeg i Blant wedi eu cynnal yng Nghanolfan Iechyd Butetown.<br>**Mudiad Meithrin** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | datblygu cysylltiadau cryf gydag Iechyd | | |
| **2.5** | **Cefnogi'r Hen Lyfrgell, Canolfan Gymraeg Caerdydd, i gynyddu gweithgareddau sy'n estyn allan a datblygu cyfleoedd i arddangos hanes a threftadaeth Gymraeg helaeth Caerdydd.** | Sefydlu swyddfa newydd Menter Caerdydd yn yr Hen Lyfrgell gan greu Hyb Cymraeg a rhaglen o ddigwyddiadau tymhorol ac ymgyrchoedd yng Nghanol y Ddinas | Rhaglen dymhorol i'w pharatoi a'i dosbarthu ar ddechrau pob chwarter gan ddechrau yn Haf 2019 | Ebrill/Mai 2019 | Swyddfa newydd y Fenter wedi ei sefydlu yn yr Hen Lyfrgell. Digwyddiadau yn mynd rhagddynt e.e. sesiynau dysgwyr, dawns & drama, shwmae s'mai, Miri Dolig a chyfle i wylio gemau rygbi yn y Ganolfan.<br>**Menter Caerdydd** |
| | | Menter Caerdydd i arwain ar gynllunio, cydlynu, a hyrwyddo calendr digwyddiadau i gyflwyno'r Gymraeg i gynulleidfaoedd newydd. | Paratoi calendr digwyddiadau a'i ddosbarthu ar ddechrau bob chwarter gan ddechrau mis Medi 2019 | O fis Medi 2019 | Menter Caerdydd yn parhau i hyrwyddo a chynnig ystod eang o weithgareddau amrywiol gydol y flwyddyn i bob oedran er mwyn cynnig cyfleoedd i gynulleidfaedd ar hyd y ddinas fwynhau digwyddiadau cyfrwng Cymraeg. E@chlysur yn un dull a ddefnyddir i hysbysebu y ddarpariaeth hyn, ynghyd a chyfryngau cymdeithasol a hysbesebu yn Y Dinesydd.<br>**Menter Caerdydd** |
| | | Cynnig sesiynau hyfforddiant amrywiol ar sgiliau galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg | Mewn partneriaeth â Menter Caerdydd, cynnig amrywiaeth o weithdai sgiliau yn y Gymraeg (e.e. gwallt a harddwch) | Ionawr 2020 | Swyddogion CCAF wedi mynychu digwyddiadau nifer o ysgolion Cymraeg a Saesneg i hyrwyddo materion y Gymraeg o fewn meysydd dysgu ac i gyflwyno ymgyrch #SiaradDysguByw y Coleg.<br>**Coleg Caerdydd a'r Fro** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Sefydlu lefel y gefnogaeth i greu pwyllgorau sefydlog i godi arian i hyrwyddo'r Gymraeg fel un o sgil effeithiau Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018 ac adrodd nôl i Fforwm Caerdydd Ddwyieithog | Bwydo canlyniadau nôl i Fforwm Caerdydd Ddwyieithog ym mis Medi 2019 | Erbyn Medi 2019 | Y Cyngor wedi asesu y lefel o gefnogaeth a chapasiti i gefnogi creu pwyllogorau sefydlog. O ganlyniad i'w gwaith hyn cytunwyd mai Clwb Canna ym Mhont Canna oedd yr unig grŵp a oedd yn meddu ar yr adnoddau angenrheidiol i barhau a'r gwaith angenrheidiol ac maent hwy wedi bod yn hyrwyddo digwyddiadau cefnogol trwy Facebook, Instagram a Twitter.<br>**Cyngor Caerdydd** |
| | | Cynnal Tafwyl bob blwyddyn trwy weithio gyda'r sectorau gwirfoddol, cyhoeddus a phreifat i greu digwyddiad cenedlaethol 9 diwrnod er mwyn hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a denu'r cymunedau Cymraeg a'r di-Gymraeg i gymdeithasu ac ymgysylltu â'r Gymraeg, y sîn gerddoriaeth Gymraeg, llenyddiaeth, | 40,000 o ymwelwyr i'r digwyddiad | Mehefin 2019 a phob blwyddyn wedi hynny | 37,000 o bobl wedi mynychu Tafwyl yn 2019, gyda dros 60 o fandiau yn chwarae'n fyw, mwy na 60 o bartneriaid a noddwyr, 30 o berfformiadau ar lwyfan yr ysgolion, 30 o ddigwyddiadau ffrinj dros 9 diwrnod yn y cyfnod yn arwain fyny at Tafwyl, dros 130 o wirfoddolwyr a staff yn rhan o'r digwyddiad, 30 o stondinwyr a chrefftau a 15 o stondinau bwyd stryd.<br>Dros 98% yn credu fod Tafwyl yn cael effaith bositif ar y Gymraeg.<br>15% o gynulleidfa Tafwyl yn dysgu Cymraeg a 10% yn ddi-Gymraeg.<br>**Menter Caerdydd** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | chwaraeon a diwylliant Cymraeg | | | |

## Adran 3: Gwasanaethau Cymraeg a'r Gweithle

| CYF | BLAENORIAETH | AMCANION | TARGED | AMSERLEN | DIWEDDARIAD |
|---|---|---|---|---|---|
| **3.1** | **Cynyddu nifer/canran siaradwyr y Gymraeg yng Nghyngor Caerdydd a hwyluso a chefnogi staff rhugl, yn ogystal â staff sy'n dysgu, i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ac annog sefydliadau partner Caerdydd ddwyieithog i wneud yr un modd.** | Cynnig gwersi Cymraeg i diwtoriaid CCAF, ac ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno'r rhain mewn partneriaeth â sefydliadau eraill Caerdydd Ddwyieithog. | Cynyddu niferoedd ar y project Cymraeg yn y gweithle 10% | Medi 2019 | 35 o staff wedi mynychu cyrsiau Cymraeg Gwaith<br>**Coleg Caerdydd a'r Fro** |
| | | Sicrhau fod holl staff CMC yn cael cynnig 3 lefel o wersi Cymraeg 1) 10 awr derbyn ar-lein 2) cwrs dwys 3) cwrs gloywi i siaradwyr rhugl. Rhannu ystyriaethau ymarferol ac adnoddau gyda phartneriaid fforwm CDd gyda golwg ar gael y partneriaid i ddilyn. | Caiff y gwersi eu rhoi yn ystod oriau gwaith yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg Bydd myfyrwyr y cwrs dwys yn sefyll arholiad Mynediad CBAC | | 10 aelod staff wedi cwblhau cwrs Cymraeg dwys, 3 aelod staff wedi dechrau cwrs rhithiol ar gyfer dysgwyr, a 8 aelod staff wedi mynychu cyrsiau preswyl Cymraeg Gwaith.<br>**Canolfan Mileniwm Cymru** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cynnal sesiynau coffi a chlonc wythnosol anffurfiol ar gyfer holl bartneriaid Caerdydd Ddwyieithog er mwyn rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg ar bob lefel i gwrdd ac i ymarfer. | | Wythnosol o fis Mehefin 2019 ymlaen | Sesiynau Coffi a Chlonc yn cael eu cynnal yn wythnosol.<br>**Canolfan Mileniwm Cymru** |
| | | Hyrwyddo ein cyrsiau Cymraeg i oedolion (prif ffrwd a chyrsiau haf dwys) yn ogystal â'r Rhaglen Sabothol er mwyn cynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio'r Gymraeg o fewn y sefydliadau. | O leiaf 1000 o ddysgwyr ar gyrsiau prif ffrwd yn ogystal â thua 200 yn y gweithle | Haf 2019-20 | Gweler y diweddariad blaenorol.<br>**Prifysgol Caerdydd** |
| | | Ehangu Cynllun Iaith Mudiad Meithrin (Croesi'r Bont) er mwyn helpu i ddatblygu sgiliau staff a phlant yn y meithrinfeydd | Targed i'w gadarnhau ym mis Medi 2019 | Amserlen i'w gadarnhau ym mis Medi 2019 | Rheolwr newydd wedi ei hapwyntio i arwain ar y gwaith o ehangu'r cynllun iaith. Mae cynllun iaith newydd y Meithrin wedi ei gyhoeddi yn awr a bydd gwaith amserlenni yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer 2020/21.<br>**Mudiad Meithrin** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.2 | **Annog sefydliadau partner Caerdydd Ddwyieithog i gynnig hyfforddiant Cymraeg a hyfforddiant ymwybyddiaeth Gymraeg i bob Uwch Reolwr ac i staff** | Cynnig cyrsiau hyfforddi amrywiol yn y Gymraeg e.e. Cymorth cyntaf, Iechyd a Diogelwch, Cymwysterau Chwarae lefel 2 a 3 i bobl Caerdydd. | Darparu o leiaf 6 chwrs hyfforddi'r flwyddyn | O fis Medi 2019 a blynyddol wedi hynny | Cynnal 8 cwrs hyfforddiant.<br>Mae'r cyrsiau'n cynnwys hyfforddiant iechyd a diogelwch a chymorth cyntaf amrywiol gan ddenu cyfartaledd o 9 o fynychwyr i bob un.<br>**Menter Caerdydd** |
| | | Sicrhau fod staff a rheolwyr Cyngor Caerdydd yn mynychu sesiynau ymwybyddiaeth iaith ac annog sefydliadau cyhoeddus eraill Caerdydd Ddwyieithog i fabwysiadu'r un dull | Adrodd yn flynyddol ar niferoedd a chanran y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant | Blynyddol | 965 o staff Cyngor Caerdydd wedi mynychu sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith yn 2019/20 (15% o staff y Cyngor).<br><br>Ers lansio'r cwrs yn mis Medi 2015 mae 3441 o staff wedi mynychu'r sesiynau.<br><br>Mae e-fodiwl Ymwybyddiaeth Iaith newydd wrthi yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i hwyluso'r hyfforddiant hyn. Bwriedir ei lansio yn mis Hydref 2020.<br>**Cyngor Caerdydd** |
| | | Cyngor Caerdydd i sicrhau fod cyrsiau i ddysgwyr Cymraeg a rhai sydd am wella'u Cymraeg ar gael i bob aelod o staff sy'n ymwneud â'r cyhoedd ac annog | Adrodd yn flynyddol ar niferoedd a chanran y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant | Blynyddol | 158 o staff y Cyngor (2.5% o'r holl staff) wedi mynychu hyfforddiant Cymraeg yn 2019/20 gan gynnwys:<br>• cwrs Croeso Cymraeg rhithiol i ddysgwyr;<br>• cyrsiau Cymraeg Prifysgol Caerdydd;<br>• cwrs preswyl 5 diwrnod y cynllun Iaith Gwaith;<br>• cyrsiau dwys Iaith Gwaith; ac<br>• amrywiaeth o gyrsiau a ddarparwyd yn fewnol gan y Cyngor gan gynnwys |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | sefydliadau cyhoeddus eraill Caerdydd Ddwyieithog i fabwysiadu'r un dull. | | | cyrsiau blasu, cyrsiau dwys, a hyfforddiant penodol i staff derbynfeydd.<br>**Cyngor Caerdydd** |
| | | Siaradwyr Gwadd amrywiol o'r fforwm i gynnal sesiynau i godi ymwybyddiaeth am eu gwaith / ymwybyddiaeth iaith. | Rhaglen o sesiynau | Erbyn Gorffennaf 2019 | Nifer o sesiynau wedi eu cynnal a ceisiadau am wersi Cymraeg wedi eu derbyn. Roedd rhaid gohirio sesiynau pellach o ganlyniad i'r cyfnod cloi.<br>**Coleg Caerdydd a'r Fro** |
| | | Sicrhau fod staff derbynfa ym mhrif swyddfeydd, llyfrgelloedd a hybiau cymunedol y Cyngor yn cwblhau hyfforddiant cyfarch a hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith a chynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth wyneb yn wyneb i bartneriaid eraill Fforwm Caerdydd Ddwyieithog. | Holl staff derbynfeydd i dderbyn hyfforddiant | Erbyn Ebrill 2020 | 39 o staff derbynfeydd y Cyngor wedi derbyn hyfforddiant Cymraeg yn 2019/20. Sesiynau wedi'u cynnal yn mis Medi, Hydref a Rhagfyr 2019.<br>**Cyngor Caerdydd** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cynnig cwrs ar y dull trochi iaith i aelodau AcadeMi a chynnig hyfforddiant perthnasol i bartneriaid Caerdydd Ddwyieithog lle bo'n briodol/perthnasol. | Targed i'w gadarnhau fis Medi 2019 | Amserlen i'w gadarnhau fis Medi 2019 | Mae'r Mudiad wedi cyhoeddi ei bolisi iaith newydd a'i rannu a pob aelod o'r AcadeMi. **Mudiad Meithrin** |
| | | Cynnig hyfforddiant wedi ei deilwra i anghenion y sefydliad, gan gynnwys cwrs ymwybyddiaeth iaith y gellir ei addasu i wahanol sefydliadau unigol. | 3 Chwrs Ymwybyddiaeth Iaith – 1 bob tymor (yn ddibynnol ar y galw) | Haf 2019-20 | Ni dderbyniwyd unrhyw gais am gwrs Ymwybyddiaeth Iaith. **Prifysgol Caerdydd** |
| | | Sicrhau fod pob aelod o staff yn y Ganolfan yn derbyn sesiynau ymwybyddiaeth iaith fel rhan o'u hyfforddiant sefydlu a chynnig hyfforddiant perthnasol i bartneriaid Caerdydd | Sesiynau gloywi i gael eu cynnig cyn digwyddiadau mawr fel yr Eisteddfod Genedlaethol neu Eisteddfod yr Urdd ym Mae Caerdydd | Parhaus | Pob aelod o staff newydd yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith. **Canolfan Mileniwm Cymru** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | ddwyieithog lle bo'n briodol/perthnasol. | | | |
| 3.3 | **Gweithredu Safonau'r Gymraeg gan sefydliadau Caerdydd Ddwyieithog perthnasol gan arwain at gynyddu argaeledd a'r defnydd gaiff ei wneud o wasanaethau Cymraeg** | Adran gyfathrebu CCAF i gynnig gwersi Cymraeg i bob cynorthwyydd busnes. | Rhoi hyfforddiant i holl staff derbynfeydd CCAF | O fis Gorffennaf 2019 | Darperir hyfforddiant i holl staff canolfannau llwyddiant y Coleg.<br>**Coleg Caerdydd a'r Fro** |
| | | Hysbysu cynorthwywyr o wersi a digwyddiadau penodol i wella eu sgiliau Cymraeg. | Hysbysiadau o wersi, sesiynau blasu a chyrsiau i'r holl staff academaidd erbyn Gorffennaf 2019. | Erbyn Medi 2019 | Hyrwyddir y Gymraeg yn y cylchlythyr wythnosol, sgriniau ar bob campws, ffilmiau, y cyfryngau cymdeithasol a trwy ddigwyddiadau fel diwrnod Santes Dwynwen. Yn ogystal cafwyd sesiynau 'Popeth Cymraeg' i hyrwyddo'r cyfleoedd, buddion a chymorth sydd ar gael trwy'r Gymraeg.<br>**Coleg Caerdydd a'r Fro** |
| | | Cynnal arolygon Siopwr Cudd misol ar wasanaethau Cymraeg Cyngor Caerdydd. | Adrodd nôl ar ganfyddiadau i'r Uwch Dîm Rheoli a Fforwm Caerdydd Ddwyieithog bob blwyddyn | O fis Medi 2019 – Mawrth 2020 | Cynhaliwyd ymarfer Siopa Cudd cynhwysfawr o'r hybiau cymunedol a'r llyfrgelloedd (gwasanaeth ffôn a derbynfeydd) ym mis Tachwedd 2019 ac adroddwyd y canlyniadau i Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor ym mis Chwefror 2020. Bydd y gwaith yn parhau ac yn ehangu yn flynyddol i gynnwys mwy o wasanaethau a lleoliadau/adrannau.<br>**Cyngor Caerdydd** |
| | | Datblygu rhaglen siopwr cudd gyda phartneriaid â diddordeb i | Datblygu rhaglen Ymarferion Siopa cudd | Erbyn Rhagfyr 2019 | Datblygwyd rhaglen siopa cudd gynhwysfawr gan y Cyngor ac adroddwyd ganlyniadau'r ymarfer cyntaf i'r uwch Dîm Rheoli yn Chwefror 2020. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | adrodd ar effeithiolrwydd y gwasanaethau Cymraeg o fewn y sefydliadau hyn. | | I ddechrau Ebrill 2020 | Bwriadwyd ehangu ac ymestyn y siopa cudd i sefydliadau eraill o fis Ebrill 2020 ond bun rhaid gohirio’r ymarferion hyn oherwydd y cyfnod clo.<br>**Cyngor Caerdydd** |
| 3.4 | **Dangos ymrwymiad cryf i'r iaith Gymraeg mewn trefniadau cydweithredu a dogfennau comisiynu a chontractau 3ydd parti a sicrhau y caiff y Gymraeg ei hystyried o’r dechrau’n deg.** | Gweinyddu’r Llyfr Ffôn – Cyfarwyddiadur, sydd yn amlinellu’r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael yn y ddinas i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth am fusnesau preifat a gwasanaethau cyhoeddus. | Cynnal un ymgyrch yn ystod y flwyddyn i ehangu’r llyfr ffôn | Medi 2019 | Ymgyrch hyrwyddo yn rhan o waith o ddydd i ddydd y Swyddog Cymraeg Byd Busnes wrth annog busnesau sy’n cynnig gwasanaeth Cymraeg i rannu eu manylion ar y wefan er mwyn hyrwyddo eu cynnig. Nifer y busensau sy’n cael eu hyrwyddo yma yn cynyddu pob blwyddyn.<br>**Menter Caerdydd** |
| | | Gweithredu llwyfan CitizenBot Microsoft i gynnig gwasanaeth cwsmeriaid sgyrsiol ei natur wedi ei awtomeiddio a’i yrru gan AI drwy gyfrwng chatbot (ar-lein a Negesydd Facebook), sianeli llais a | CitizenBot cwbl ddwyieithog | Mawrth 2020 | Lansiwyd Bobi’r Ddraig (gwasanaeth Citizenbot y Cyngor) yn mis Chwefror 2020. Cafwyd oedi wrth gyflwyno’r ystod lawn o wasanaethau o ganlyniad i argyfwng Covid 19 a disgwylir ail lansio’r wasanaeth yn llawn yn gynnar yn 2020/21.<br>**Cyngor Caerdydd** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | thechnolegau cymorth rhirhiol (Alexa, Siri ayb) | | | |
| **3.5** | **Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Gymraeg.** | Trefnu cynhadledd gofal plant a gofal iechyd a chymdeithasol dwyieithog. | Trefnu cynhadledd | Rhwng Medi 2019 – Mawrth 2020 | Y gynhadledd a drefnwyd ar gyfer mis Mawrth 2020 wedi ei gohirio o ganlyniad i'r cyfnod clo.<br>**Coleg Caerdydd a'r Fro** |
| | | Sicrhau bod 'Cynnig Actif' o wasanaethau Cymraeg yn cael ei rannu â holl staff y Gwasanaethau Cymdeithasol ac o fewn gwasanaethau a gomisiynir. | Darparu hyfforddiant staff ar y 'Cynnig Actif' bob chwarter. | Mawrth 2020 | Hysbysir staff o'r Cynnig Actif fel rhan o'r broses o anwytho staff newydd ac o fewn sesiynau hyfforddiant chwarterol.<br>**Cyngor Caerdydd** |
| | | Cynnwys gwasanaeth Cymraeg mewn manylion contract trydydd parti ac annibynnol, contractau lefel gwasanaeth a phrosesau cyllid grant lle bo angen. | Cyfathrebu gofynion safonau'r Gymraeg i bob contractwr newydd. | Mawrth 2020 | Mae pob cytundeb, cytundeb lefel gwasanaeth, a phroses grant trydydd parti ac annibynnol yn cael eu gwirio gan Adran Gyfreithiol y Cyngor i sicrhau bod gofynion a gwasanaethau Cymraeg priodol yn cael eu cynnwys. Yn ogystal rhaid i staff gwblhau ffurflen cyn ymwneud â'r broses tendro sy'n cynnwys asesiad o'r angen am wasanaethau Cymraeg. Cyfathrebir y gofynion i bob contractwr.<br>**Cyngor Caerdydd** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Sicrhau ein bod yn gallu darparu cymaint o wasanaethau â phosibl yn Gymraeg. Lle nodir bylchau yng nghapasiti'r gweithlu i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg dylid adlewyrchu'r rhain yn Strategaeth Sgiliau Dwyieithog y sefydliad. | Cynyddu niferoedd staff y Gwasanaethau Cymdeithasol sydd â sgiliau Cymraeg 20%<br><br>Adrodd ar y niferoedd yn flynyddol yn adroddiad blynyddol Safonau'r Gymraeg | Ebrill 2019 – Mawrth 2022 | 166 o staff yr adran Gwasnaethau Cymdeithasol â sgiliau Cymraeg yn 2019/20. Mae hyn i gymharu a 126 yn 2018/19 ac yn cynrychioli cynnydd o 32%.<br>**Cyngor Caerdydd** |
| 3.6 | **Archwilio'r ffordd y mae ein gwasanaethau'n cael eu cynnig i'r cyhoedd a gweithio gydag arbenigwyr mewn pensaernïaeth dewis iaith i sicrhau dewis iaith teg.** | Sicrhau fod stondin Gymraeg a/neu gyflwyniad yn wythnos y glas a nosweithiau agored i hyrwyddo astudio trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog gan gynnwys gwybodaeth ar argaeledd cyrsiau Cymraeg. | Cynyddu ymwybyddiaeth o gyfleoedd dwyieithog sydd ar gael ei ddysgwyr newydd yn CCAF | Medi – Hydref 2019 | Nifer o nosweithiau agored wedi eu cynnal yn fyr ac yn rhithiol yn 2019/20 i hyrwyddo dwyieithrwydd ar draws y Coleg.<br>**Coleg Caerdydd a'r Fro** |
| | | Cynnal ymchwil gychwynnol ac arbrofion a/neu os yn briodol, | Canlyniadau i'w cyflwyno i Caerdydd Ddwyieithog erbryn diwedd Medi 2019 | Erbyn Medi 2019 | Cynhaliwyd ymchwil cychwynnol, a cyflwynodd Dr Jeremy Evas, Pennaeth Newid Ymddygiad Iaith a Thechnoleg Iaith Llywodraeth Cymru, eitem ar Saernïo Dewis |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | drafodaethau â chyrff eraill, i edrych ar gwestiwn sut y gall newidiadau bychain ddylanwadu ar y dewisiadau a wneir wrth ddefnyddio gwasanaethau cyfrifiadurol y Cyngor trwy gyfrwng pensaerniaethau dewis iaith, er mwyn sefydlu pa rai sydd fwyaf tebygol o sicrhau y defnydd uchaf o’r Gymraeg. | | | Rhyngwynebau ac Addysg Gymraeg i Weithgor Aelodau Caerdydd Ddwyieithog ar 7 Hydref 2019. |
| | | Cynnal ymchwil wedi ei ganoli ar rieni plant oed cyn-ysgol er mwyn canfod pa fecanweithiau pensaernïaeth dewis iaith a/neu ystyriaethau y dylai’r Cyngor eu sefydlu er mwyn cynyddu niferoedd y rhieni | Defnyddio’r canfyddiadau ymchwil a’r casgliadau i fwydo newidiadau i’r gwasanaeth (os o gwbl) mewn pryd ar gyfer y rownd dderbyniadau ysgol nesaf yn gynnar fis Tachwedd | Gorffennaf – diwedd Hydref 2019 | Cynhaliwyd ymchwil cychwynnol o’r wefan addysg, ac yn benodol y ffurflen derbyn i ysgolion, a cyflwynodd Dr Jeremy Evas, Pennaeth Newid Ymddygiad Iaith a Thechnoleg Iaith Llywodraeth Cymru, ei argymhellion i Arweinydd y Cyngor, yr Aelod Cabinet dros Addysg, ac Uwch swyddogon yr Adran Addysg ar 9 Ionawr 2020 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | sydd yn dewis addysg Gymraeg i'w plant yng Nghaerdydd. | | | |